# Y TINCER

PRIS 75c

Rhif 341

Medi 2011

PAPUR BRO GENAU'R-GLYN, MELINDWR, TIRYMYNACH, TREFEURIG A'R BORTH


# Agoriad swyddogol Gorsaf Dân y Borth



Yr Arglwydd Elystan-Morgan agorodd Gorsaf Dân y Borth yn swyddogol ar yr 28ain o fis Gorffennaf eleni. Nododd mai gorsaf dân y Borth oedd yr unig orsaf wirfoddol yng Nghymru (ar wahân i orsaf dân y mynachod ar yr Ynys Bŷr /Caldy). Y mae llond dwrn i gael yng ngogledd ynysoedd yr Alban. Gorsaf Dân Dilwyn Jenkin Owen yw enw'r Orsaf, a braf oedd gweld gweddw Dilwyn, Barbara, yn ôl yn y Borth yn cyfrannu at yr achlysur. Siaradodd Gareth Rowlands ynglŷn â hanes casglu'r arian a diolchodd i nifer fawr o bobl am eu hamryw gyfraniadau - ariannol a gweithredol. Ar ddiwedd yr areithiau cafwyd archwiliad gan Cheryl Philpott o'r criw uchod-pasiodd pawb yn wych! Hefyd cyflwynwyd medalau arbennig i Peter Davies a Phillip Jones am 27 mlynedd o wasanaeth i'r orsaf. Llongyfarchiadau iddynt! Gwirfoddolwyr yr orsaf dân-o'r chwith i'r dde: Lee Trubshaw, Peter Davies, Phillip Jones, Martyn Davies, Nigel Clifft, Simon Cashman, Aled Jenkins.

## Enillydd cyntaf Gwobr Newydd



Aled Llŷr Thomas, Capel Madog, enillydd cyntaf Gwobr Goffa Brynle Williams yn cael ei wobr gan Mary Williams, gweddw Brynle Williams ac Alun Davies, y Dirprwy Weinidog Amaethyddiaeth.

(Gweler mwy o fanylion ar t.11) Llun: Arvid Parry-Jones

## Cyrraedd y brig yng Ngogerddan



Dydd Iau 1af Medi bu'r Athro April McMahon, Is-Ganghellor Prifysgol Aberystwyth, yn dathlu cwblhau'r cam diweddaraf yn y gwaith o adeiladu canolfan ymchwil a dysgu £8.6m newydd IBERS (Sefydliad y Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig) ar safle Gogerddan. Yn ymuno â'r Athro McMahon roedd uwch swyddogion IBERS ac aelodau o Fwrdd Ymgynghorol Allanol IBERS, a chynrychiolwyr o'r cwmni adeiladu Willmott Dixon, y cwmni rheoli prosiect Davies Langdon a'r penseiri Pascal & Watson. Nodwyd yr achlysur drwy glymu brigyn o goeden Ywen i'r adeilad. Chwith i'r Dde: Paul Evans o Willmott Dixon, Yr Athro Wayne Powell Cyfarwyddwr IBERS, Yr Athro April McMahon Is-Ganghellor Prifysgol Aberystwyth, a Ryan Dixon o'r penseiri Pascal & Watson.

# Y TINCER

- un o bapurau bro Ceredigion | Sefydlwyd Medi 1977
ISSN 0963-925X | Rhif 341 | Medi 2011

Noddir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru

CYDNABYDDIR CEFNOGAETH BWRDD YR IAITH GYMRAEG


## SWYDDOGION

**GOLYGYDD** - Ceris Gruffudd
Rhos Helyg, 23 Maesyrefail
Penrhyn-coch ☎ 828017
Rhoshelyg@btinternet.com

**TEIPYDD** - Iona Bailey

**CYSODYDD** - Dylunio GraffEG ☎ 832980

**CADEIRYDD** - Elin Hefin, Ynyswen, Stryd Fawr, Y Borth ☎ 871334

**IS-GADEIRYDD** - Bethan Bebb, Penpistyll, Cwmbrwyno. Goginan ☎ 880228

**YSGRIFENNYDD** - Anwen Pierce
46 Bryncastell, Bow Street ☎ 828337

**TRYSORYDD** - Hedydd Cunningham, Tyddyn-Pen-y-Gaer, Llandre, Aberystwyth SY24 5NX
☎ 820652 hedyddcunningham@live.co.uk

**HYSBYSEBION** - Rhodri Morgan, Maes Mieri Llandre, ☎ 828 729 rhodrimoc@yahoo.co.uk

**LLUNIAU** - Peter Henley
Dôleglur, Bow Street ☎ 828173

**TASG Y TINCER** - Anwen Pierce

**TREFNYDD GWERTHIANT A THREFNYDD CYFEILLION Y TINCER** - Bryn Roberts
4 Brynmeillion, Bow Street ☎ 828136

## GOHEBYDDION LLEOL

**ABER-FFRWD A CHWMRHEIDOL**
Mrs Beti Daniel, Glyn Rheidol ☎ 880 691

**Y BORTH**
Elin Hefin, Ynyswen, Stryd Fawr
elin.john@yahoo.co.uk

**BOW STREET**
Mrs Mair Lewis, 40 Maes Ceiro ☎ 828 102
Lynn Phillips, 1 Cae'r Odyn ☎ 820908
Anwen Pierce, 46 Bryncastell ☎ 828 337

**CAPEL BANGOR/PEN-LLWYN**
Mrs Aeronwy Lewis, Rheidol Banc
Blaengeuffordd ☎ 880 645

**CAPEL MADOG, CEFN-LLWYD A CAPEL DEWI**
Eirian Hughes, Lluest Fach ☎ 880 335; Elwyna Davies, Tyncwm ☎ 880 275; Dai Evans, Fferm Fronfraith, Comins-coch ☎ 623 660

**DÔL-Y-BONT**
Mrs Llinos Evans, Dôlwerdd ☎ 871 615

**DOLAU**
Mrs Margaret Rees, Seintwar ☎ 828 309

**GOGINAN**
Mrs Bethan Bebb, Penpistyll, Cwmbrwyno ☎ 880 228

**LLANDRE**
Mrs Mair England, Pantyglyn, Llandre ☎ 828693

**PENRHYN-COCH**
Mairwen Jones, 7 Tan-y-berth ☎ 820642

**TREFEURIG**
Mrs Edwina Davies, Darren Villa
Pen-bont Rhydybeddau ☎ 828 296


# DYDDIADUR Y TINCER

Y DYDDIAD OLAF Y BYDD GOHEBWYR LLEOL YN DERBYN DEUNYDD AR GYFER Y RHIFYN NESAF FYDD **MEDI 29** a **MEDI 30** I'R GOLYGYDD. DYDDIAD CYHOEDDI **HYDREF 13**

**MEDI 18** Bore Sul Rali tractorau; cwrdd yn Iard Ysgol Penrhyn-coch am 10.30. Elw at Ysgol Penrhyn-coch. Lluniaeth.

**MEDI 21** Nos Fercher Noson yng nghwmni Russell Jones — noson agoriadol Cymdeithas y Penrhyn am 7.30 yn festri Horeb

**MEDI 23** Nos Wener Bingo yn Neuadd Eglwys Penrhyn-coch am 7.00

**MEDI 29** Nos Iau Cwrdd Diolchgarwch Capel Llwyn-y-groes yng ngofal y Parchg Judith Morris am 7.00

**MEDI 30** Nos Wener Cwmni Arad Goch yn cyflwyno 'Al ac Ant yn Cler hudol a'r bwyd symudol!' yng Nghanolfan y Celfyddydau am 7.00

**HYDREF 5** Nos Fercher Cyfarfod diolchgarwch Horeb yng nghwmni y Parchedig Nan Powell-Davies, Yr Wyddgrug am 7.00

**HYDREF 8** Pnawn Sadwrn Yr Arglwydd John Morris yn hel atgofion am ei yrfa fel cyfreithiwr ifanc yng Ngheredigion yn y Drwm, LLGC am 2.00. Saesneg fydd iaith y digwyddiad. Mynediad drwy docyn £3.50 Am ddim i Gyfeillion y Llyfrgell

**HYDREF 8** Nos Sadwrn Cyngerdd i'r Galon, gyda Chôr Meibion Pontarddulais ac Artistiaid Lleol yng Nghanolfan y Celfyddydau Aberystwyth. Tocynnau ar werth gan Janice Petche (01970) 828861 a Rowland Jones (01974) 241328 neu drwy Canolfan y Celfyddydau (01970) 623232. Elw at Apêl Nyrs Calon Ceredigion.

**HYDREF 18** Nos Fawrth Theatr Na'Nog a Theatr Mwldan yn cyflwyno Salsa! yng Nghanolfan y Celfyddydau Aberystwyth am 7.30.

**TACHWEDD 2** Nos Fercher Pwyllgor blynyddol Sioe Capel Bangor.

## Y Tincer trwy'r post

**Pris 10 rhifyn** - £14 (£25 i wlad y tu allan i Ewrop).

Cysylltwch â'r Trysorydd - Hedydd Cunningham, Tyddyn-Pen-y-Gaer, Llandre, Aberystwyth, SY24 5NX
☎ 01970 820652 hedyddcunnigham@live.co.uk

## Set o'r Tincer 1977-2011

Mae set gyflawn o'r Tincer ar gael i gartref da! Os oes diddordeb gennych i gael set a rhoi cyfraniad i'r Tincer cysylltwch â'r Golygydd.

**Y Tincer ar dâp** - Mae modd cael y Tincer ar gaset ar gyfer y rhai sydd â'r golwg yn pallu. Cysylltwch â Rhiain Lewis, Glynllifon, 17 Heol Alun, Aberystwyth, SY23 3BB (☎ 612 984)

**Camera'r Tincer** - Cofiwch am gamera digidol y Tincer – mae ar gael i unrhyw un yn yr ardal fydd am ei fenthyg i dynnu llun ar gyfer y papur o gyngerdd, cinio neu ddigwyddiad a gynhelir o fewn ein dalgylch. Fe'i cedwir gan Mrs Mair Lewis, 40 Maes Ceiro, Bow Street (☎ 828102). Os byddwch am gael llun eich noson goffi yn Y Tincer defnyddiwch y camera.

Cyhoeddir *y Tincer* yn fisol o Fedi i Mehefin gan Bwyllgor y Tincer. Argreffir gan y Lolfa, Tal-y-bont. Nid yw'r Pwyllgor o angenrheidrwydd yn cytuno ag unrhyw farn a fynegir yn y papur hwn. Dylid cyfeirio unrhyw newyddion i'ch gohebydd lleol neu i'r Golygydd, ac unrhyw lythyr neu ddatganiad i'r wasg i'r Golygydd.

**Telerau hysbysebu**
Tudalen lawn (35 x 22 cm) £100
Hanner tudalen £60
Chwarter tudalen £30
neu hysbyseb bach ca. 5 x 8 cm £6 y rhifyn - £40 y flwyddyn (10 rhifyn - misol o Fedi i Fehefin); mwy na 6 mis + £4 y mis , llai na 6 mis - £6 y mis. Cysyllter â Rhodri Morgan os am hysbysebu.

## CYFEILLION Y TINCER

**Dyma fanylion enillwyr Cyfeillion Y Tincer mis Mehefin**

£25 (Rhif 155) Aeronwy Lewis, Rheidol Bank, Capel Bangor,
£15 (Rhif260) Yr Athro Carter, Tyle Bach, Maes-y-Garn, Bow Street,
£10 (Rhif139) Yr Athro Gruffydd Aled Williams, Bronafon, Dolau.

Fe dynnwyd y rhifau buddugol gan EleriRoberts yn dilyn ymarfer Côr Cantre'r Gwaelod nos Sul y 3ydd o Orffennaf.

Cysylltwch â'r Trefnydd, Bryn Roberts, 4 Bryn Meillion, os am fod yn aelod. Am restr o Gyfeillion y Tincer 2010/11 gweler http://www.trefeurig.org/uploads/cyfeilliontincer2009.pdf

# TREFEURIG

### Newid aelwyd

Yn ystod yr haf ffarweliwyd â Emrys a Gwyneth Williams, Maesteg - sydd wedi symud i Aberystwyth.

### Casgliad

Cyflwynwyd siec am £115 i Gartref Tregerddan yn ddiweddar er cof am Miss Megan Olwen Thomas, Tyngelli gynt, Trefeurig.



### Penodi'n Athro

Llongyfarchiadau i Gideon Koppel sydd yn dechrau y mis yma fel Athro Ffilm yn Adran Astudiaethau Theatr, Ffilm a Theledu Prifysgol Aberystwyth. Mae Gideon hefyd yn Gymrawd Cysylltiol yng Ngholeg Green Templeton, Prifysgol Rhydychen.

# 20 Mlynedd 'Nôl



*Swyddogion a gweithwyr Cae Chwarae Penrhyn-coch — yn sefyll o'r chwith i'r dde; Richard Wyn Davies, Mervyn Hughes, Gareth Jones, Marion Baylis, Ieuan Jenkins, Phil Stone, Jenny Harding gyda'r dystysgrif teilyngdod gawsant gan Gymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Dyfed, Andy Brown, Daniel Huws, Irfon Rhys Williams, a Debbie Stone. Yn eistedd: Bernard Jones a Rebecca Stone. Llun: Hugh Jones (O Dincer Medi 1991)*



*Brenhines Carnifal Penrhyn-coch '91, Miss Emma Jones, Ger-y-llan gyda'i morwynion a'r gweision Meganne John, Ellen Davies, Nicola Chapman, Carys Evans, Reian Jones a Robert Glyn Hughes i gyd o Benrhyn-coch. Hefyd gwelir Miss Melanie Evans, Brenhines '90 a Llywydd y Carnifal eleni, Mrs Ceinwen Jones, Llanddeiniol, Brenhines 1975. Llun: Hugh Jones (O Dincer Medi 1991)*

### Ennill yn Wrecsam

Llongyfarchiadau i Parti'r Greal a'u hyfforddwraig Bethan Bryn ar ddod yn gyntaf yng nghystadleuaeth y Parti Cerdd Dant yn Eisteddfod Wrecsam eleni. Daw pedair aelod o ardal y Tincer - Anwen Pierce, Meinir Edwards, Gwennan Williams ac Angharad Fychan.
Llongyfarchiadau hefyd i Anwen Pierce ar ennill Cadair Eisteddfod Tregaron nos Sadwrn 10 Medi - a hynny am yr ail flwyddyn yn olynol.



# Y BORTH

## Carnifal

Cafwyd Carnifal llwydiannus arall eleni a chodwyd hyd yn oed yn fwy na'r £7,000 a godwyd llynedd! (Dyw'r cyfanswm terfynol ddim ar gael eto). Cynhaliwyd nifer o ddigwyddiadau codi arian, megis Cors Fochno, Ocsiwn, Noson Casino, Cwis a.y.y.b. yn arwain at ddydd Gwener y Carnifal lle roedd 15 fflôt a grŵpiau cerdded yn ogystal ag unigolion. Rhoddwyd cefnogaeth ardderchog gan fusnesau lleol ac un elfen newydd eleni oedd fflôt BAM Nuttall (a gyfranodd yn hael dros ben at gyhoeddi rhaglen y Carnifal). C.B.



## Merched Ascott

Cafwyd diwrnod hwyliog a llwyddiannus eleni eto yn 'Dannys Bar' ar gyfer diwrnod y menwod yn Ascot/Borth. Codwyd tua £185 a rhoddwyd y cyfanswm tuag at Garnifal y Borth sy'n golygu fod yr arian yn mynd yn ôl at ddibenion y pentre. Fel y gwelwn o'r llun, mae'n amlwg fod pawb wedi mwynhau'r gwisgo a'r cymdeithasu!

## Y Clwb Pêl-droed

Ar ôl llwyddiant gwerthiant y coed Helyg ar gyfer ymyl y cae pêl-droed mae cyfle newydd i brynu mwy! Maent ar werth am £75.00 oddi wrth Peter Fleming 01970 871042.

## Ymddeoliad Hapus

i Pat Richards (Cae Ffynnon), sydd ar fin dechrau ar ei hymddeoliad ar ôl dysgu Saesneg yn ysgol Pen-glais am un mlynedd ar hugain. Mwynha Pat!

## Marwolaeth Veronica

Bu farw Veronica Howells, Tyrol House, ym mis Gorffennaf, priod Michael Howells (Treorci gynt). Estynnwn ein cydymdeimlad iddo, ac i'w hefaill , Judith sydd yn treulio llawer o'i hamser yma yn y Borth. Bu Veronica yn treulio'i gwyliau yma ers yn ferch fach ac yn y diwedd ymgartrefodd yma. Er nad oedd yn siarad Cymraeg, roedd yn dwli ar Gymru a Chymreictod.
Cafwyd gwasanaeth hyfryd yn eglwys y Borth gyda'r Parchedig Cecilia Charles yn gwasanaethu, a theyrnged gan John Hefin. Collodd y Borth gymeriad annwyl a hwyliog iawn.

## Cofio Mrs. Pamela Gibbs, Gorwel

Bu Mrs. Pamela Gibbs farw yn esmwyth yn ei chartref gyda'i theulu o'i hamgylch ar Fai 26ain 2011 yn dilyn tostrwydd hir. Symudodd Mrs. Gibbs a'i gŵr, Sqd. Ldr. John Gibbs, i'r Borth ym 1977 i fod yn agos i'w merch Sarah Pugh, un o'u pedwar plentyn.

Roedd yn brysur a gweithgar iawn hyd at flwyddyn olaf ei bywyd. Teithiodd i Calcutta at Chwiorydd Sant Theresa yn ei 80au hwyr i helpu gyda'u gwaith o edrych ar ôl plant amddifad. Bu hefyd yn gwâu cannoedd o eitemau er llês y plant dros y blynyddoedd, gan fynychu gwasanaethau yn Eglwys Gatholig y Santes Gwenfrewi yn Aberystwyth pob wythnos. Bu'n mynd i ddosbarthiadau Cymraeg rhan fwyaf o'i bywyd yn y Borth ond roedd braidd yn swil i siarad yr iaith mewn cwmni Cymreig ond yn deall a darllen yr iaith yn hawdd. Roedd hefyd , hyd at rhyw flwyddyn neu ddwy yn ôl yn mynychu dosbarthiadau Yoga bob nos Lun, a hithau yn ei nawdegau.

Erbyn hyn roedd yn fam-gu a hen fam-gu i ddwsenni ac mae'r teulu oll yn teimlo gwacter anferth yn eu bywydau ar ôl colli eu hannwyl "Jankey"

R.W.

## Dirk Lloyd

Bu farw Dirk Lloyd, Frondirion, ar Fedi'r 3ydd- byddwn yn cynnwys teyrnged lawn iddo yn rhifyn Hydref.

## Agoriad Amgueddfa Gorsaf y Borth

Agorwyd Amgueddfa Gorsaf y Borth yn swyddogol ar y 9fed o Orffennaf-daeth tua cant a hanner o bobl ynghyd ar bnawn Sadwrn braf ac roedd yna awyrgylch o ddathlu a mwynhau i'w weld ac i'w deimlo ymhlith y dorf. Cafwyd amryw areithiau a chyflwynwyd blodau i Jo Romary. Jo a George yn ogystal â John Toler yw'r drindod sydd wedi rhoi egni ag amser ers blynyddoedd lawer erbyn hyn i greu y fath wyrth! Yn wir maent wedi 'byw' yr orsaf ers blynyddoedd-ond yn enwedig eleni, lle maent wedi ymgyrchu, trefnu,llythyru, glanhau, casglu ,dethol a gosod yn ddi baid. Mae ffrwyth eu llafur i'w weld yn yr amgueddfa fach hynod hon, sydd erbyn dechrau Medi wedi denu ymhell dros 2,000 o ymwelwyr.

Yn ogystal â rhoi hanes manwl rheilffordd y Borth,mae hefyd yn cofnodi hanes y pentre a'r ardal. Gwelir model o'r orsaf fel ag yr oedd yn ogystal â ffilm ddifyr, ac ailgread o stafell Gorsaf Feistr fel y byddai wedi bod ers llawer dydd.



Jo Romary yn derbyn tusw o flodau yn ystod agoriad swyddogol Amgueddfa Gorsaf y Borth.



Aelodau grŵp Canolfan Deuluol y Borth yn cael eu croesawu gan Sali Mali ar gyrraedd Llanerchaeron. Noddwyd y diwrnod gan Rwydwaith Canolfannau Teuluol Ceredigion.Roedd tua 800 o bobl yno i gyd i ddathlu Wythnos y Teulu 2011.

Cafwyd eitem ddifyr ar Wedi 3 gan Heather Gregory ddechrau Medi, a da oedd gweld Amgueddfa'r Borth yn cael sylw haeddiannol!

Mae'r Amgueddfa wedi bod ar agor yn ddyddiol dros yr haf, bydd yr amserau'n amrywio yn ystod yr Hydref a'r Gaeaf.

Gwerthir nifer o eitemau hynod ddeniadol e.e. magnedau rhewgell, pensiliau, beiros, amrywiol fathodynnau, a.y.y.b. — anrhegion Nadolig?!

### Hogie Hafod Heli

Llongyfarchiadau i Carwyn Tywyn, Hafod Heli gynt, ar ddod yn fuddugol yn Eisteddfod Wrecsam a'r Fro yng nghystadleuaeth ysgrifennu Blog dros gyfnod o fis. Nododd y beirniad, Lyn Lewis Dafis, mai "cofnodion byr a bywiog" oedd gan Carwyn yn y Blog "... ac mae hynny'n gryfder yn ei waith". Bu'r blynyddoedd o lunio adroddiadau misol cryno i'r Tincer ar hynt a helynt Tîm Pêl-droed y Borth o fudd felly!

Wrth i'r Tincer fynd i'r wasg, roedd Carwyn wrthi'n paratoi ar gyfer dathliad o fath arall, a hynny yng nghwmni ei frawd mawr, y Dr Alun Fowler. Yng nghwmni hen ffrind o'u dyddiau ysgol yn Aberystwyth, sef Gavin Drybrough, bwriad Alun fydd seiclo mewn pythefnos (Medi 3 — 18) o Land's End i John O'Groats. Bydd y daith yn fodd i Alun a Gavin ddathlu eu pen-blwyddi yn 40 oed a hefyd yn daith er budd Ysbyty Great Ormond Street. Mynychwyd clinigau Thorasig yr ysbyty gan Alun fel claf allanol am ugain mlynedd. Diolch i'r drefn ni chafodd y nam cynhwynol ar ei galon effaith andwyol arno ef ond mae bob amser yn awyddus i helpu plant llai ffodus, gan fod cost darparu gwasanaethau'r ysbyty yn dibynnu ar gyfraniadau elusennol o £10 miliwn y flwyddyn.

Bydd croeso i unrhyw gyfraniad, bach neu fawr, ar lein http://www.justgiving.com/lejog2011/
neu drwy anfon Neges Destun
At: 70070
Testun: LJOG71
Yna swm y cyfraniad, £...

### Pen blwydd arbennig

Dathlodd Liz Thomas (The Cottage) ben blwydd arbennig(!) ganol Awst. Llongyfarchiadau gwresog iddi! Daeth ffrindiau o bell ag agos i ddathlu gyda hi yn y Railway, a hoffai Liz ddiolch am yr holl anrhegion a'r holl ddymuniadau da a dderbyniodd.

### Y Morglawdd

Mae'r gwaith o fewn tri mis i'w orffen, ac os bydd y tywydd yn garedig, erbyn dydd Nadolig bydd y traeth yn wag; dim rhagor o weld pum Jac Codi Baw melyn yn marcho lan a lawr at y rîff newydd; dim rhagor o lorïau anferth i gyd yn chwifio'r Ddraig neu faner Glyndŵr, a dim rhagor chwaith o sŵn a llwch!
Braf bu eu cwmni a braf bydd gweld y cyfan yn dod i ben. Yn y wybodaeth y bydd y pentre yn ddiogel......wel mor ddiogel a gall pentre glan môr fod os godith tymer Defi Jones.

### Cymdeithas Gymraeg Y Borth a'r Cylch

Bydd Cymdeithas Gymraeg Y Borth a'r Cylch yn ail gychwyn y tymor newydd nos Fercher, 12 Hydref, 2011 am 7.30 o'r gloch. Bydd y Gymdeithas yn symud cartref, ac yn hytrach nag yn Festri'r Gerlan bydd y cyfarfodydd yn cael eu cynnal yn Neuadd y Borth. Noson yng ngofal ein Llywydd, Mr. John M. Hughes, fydd y noson agoriadol. Croeso cynnes i'r cyn-aelodau ac i aelodau newydd.

### Urddo i'r orsedd

Llongyfarchiadau i Tamsin Davies, y Borth ar gael ei hurddo i'r orsedd. Bu Tamsin yn fyfyrwraig ymchwil yn Adran Ddaearyddiaeth Prifysgol Abertawe ac roedd hi hefyd yn gwneud cwrs Cymraeg. Gweithiodd yn galed iawn dros y blynyddoedd i loywi ei Chymraeg, ac mae bellach yn gweithio trwy gyfrwng y Gymraeg ym Mhrifysgol Aberystwyth.
Daw Tamsin yn wreiddiol o Ffwrnais a hi yw clerc Cyngor Cymuned Ysgubor y Coed. Symudodd i'r Borth ym mis Chwefror eleni.

### O'ch chi'n gwbod? Hanes enw ein pentref.

Y Borth
Yr Harbwr; y Porth
1565 borthe.
1602 Y Borth.
1738 Borth.
1798 Porth.
1837 Borth.
Sail posib i'r enw yw Porth Gwyddno 1=233., h.y. Gwyddno Garanhir, brenin Cantre'r Gwaelod.


ytincer@googlemail.com

## DOLAU

### Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Lisa Wyn, Pant yr Haul, ar ei llwyddiant yn arholiadau TGAU.

GWELY A BRECWAST MAIR
9 Heol Llangrallo, Pen-y-Bont ar Ogwr CF31 3AR
Croeso cynnes Cymreig mewn lleoliad delfrydol i ganolfanau siopa gorau de Cymru, Canolfan y Mileniwn, Stadiwm y Mileniwm a Cae Pêl-droed Caerdydd.
www.mairsbedandbreakfast.co.uk
e-bost : mairbandb@hotmail.com
01656 655442
07768 286303
Cysylltwch â Huw a Sarah Tudur

GWASANAETH GARDDIO ROBERT GRIFFITHS

Am bob math o waith garddio ffoniwch (01970) 820924

Eirian Reynolds, Tech. S.P.
GWASANAETHAU IECHYD A DIOGELWCH
GWASANAETHAU DIOGELWCH
AROLYGON DIOGELWCH
ASESIADAU PERYGLON
ARCHWILIADAU DAMWEINIAU
HYFFORDDIANT
GWASANAETH CYFLAWN I GADW CHI A'CH GWEITHLU YN DDIOGEL
Ffôn: 01970 820124 Symudol: 07709505741

ANIFEILIAID TEW
eu hangen i'w lladd mewn lladd-dy lleol

Cysylltwch â Tegwyn Lewis
Ffôn (01970) 880627

**R.J.Edwards**
Adeiladau Fferm y Cwrt
Cwrt Farm Buildings
Penrhyn-coch

Contractiwr, masnachwr gwair a gwellt
Arbenigwr ar ailhadu
Cyflenwi a gwasgaru calch, slag a Fibrophos
Lori, turiwr a malwr i'w llogi
Cyflenwi cerig mân

01970 820149
07980 687475

**Clwb Cymdeithasol Pêl-droed Penrhyn-coch**

CINIO DYDD SUL
PRYDAU BAR
PARTÏON
BWYDLEN BWYTY
ADLONIANT



AR AGOR O 5:30 P.M. NOSWEITHIAU IAU A GWENER AM BRYDIAU TEULUOL

**SWYDDFA'R POST BOW STREET**
NWYDDAU
MELYSION
CYLCHGRONAU
CARDIAU CYFARCH
PAPURAU DYDDIOL A'R SUL
JOHN A MARIA OWEN

CTE
C. TREFOR EVANS
TREFNWR ANGLADDAU
"PLAS BRONGENAU"
LLANDRE
ABERYSTWYTH
Ffôn 820013

**M THOMAS**
**Plymwr Lleol**
Penrhyn-coch
Gosod gwres canolog
Ystafelloedd ymolchi
Cawodydd
Pob math o waith plymio ac hefyd gwaith nwy
Prisiau rhesymol
07968 728470
01970 820375

# LLANDRE

## Gwobrau diwedd tymor

Llongyfarchiadau i Sion Summers, Bodwylan, ar dderbyn tlws chwaraewr mwyaf addawol y flwyddyn yng nghinio blynyddol Clwb Rygbi Aberystwyth.

## Ras am Fywyd

Da iawn ferched lleol Llandre a gymerodd ran yn y Ras am Fywyd ar ddydd Sul 15fed o Fai. Mae'r ras yn agored i ferched o bob oed i godi arian at ymchwil cancr.

## Genedigaeth

Llongyfarchiadau i Sue a Gareth Jones, Aberceiro ar ddod yn fam-gu a thad-cu unwaith eto. Ganwyd mab i Edward a'i wraig yn Y Bala.

## Eisteddfod Genedlaethol Wrecsam

Cafodd Annette Williamson, Coedgruffydd, aelod newydd o'r grŵp 'A Llawer Mwy' brofiad da yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Wrecsam yn ddiweddar. Daeth y grŵp (Elsa Davies ffidil, Keith Floyd ffidil, Nigel Hardy ffliwt, Ceri Owen-Jones telyn, Annette melodeon) yn gyntaf yn y gystadleuaeth 'Grŵp offerynnol/offerynnol a lleisiol' yn erbyn 'Band Panteg a 'Telynorion Cwm Derwent'. Chwaraeon nhw bedair alaw - Morfa Rhuddlan, Ymdaith Syr Watkin, Pibddawns Ned Roberts a Breuddwyd y Wrach.
Hefyd, hoffai Annette ddweud diolch yn fawr i bawb yn Llandre sydd wedi'i helpu hi ymarfer i basio ei harholiad Cymraeg 'canolradd' ym mis Mehefin - diolch am eich amynedd!

## Cydymdeimlo

Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf i Marian Jenkins, Eryl a'r teulu yn ei phrofedigaeth o golli ei brawd, Dr Dafydd Huws yn dilyn salwch hir. Bu'r angladd yng Nghapel y Garn ddydd Sadwrn, 9 Gorffennaf, dan arweiniad y Parchg R. Alun Evans.

Hefyd cydymdeimlwn â Mrs Kay, Maeshenllan a'r teulu ar farwolaeth ei gŵr Mr Jim Kay yn ddiweddar.

## Gwellhad buan

Dymunwn wellhad buan i Marjorie Hughes, Frongelli, Taigwynion ar ôl cyfnod yn yr ysbyty. Hefyd i Tom Ricketts, Alderley, Lôn Glanfred sydd wedi derbyn llawdriniaeth yn Ysbyty Treforys.

## Pen blwydd arbennig

Pen blwydd hapus i Joseff James, Tradiddan, ar ddathlu ei ben blwydd yn 18 oed ar yr 2il o Awst.

## Croeso

Croeso i Rhiannon a Craig Edwards sydd wedi symud i Bugeildy, Lôn Glanfred. Gobeithio byddant yn hapus yn ein plith.

## Arholiadau

Llongyfarchiadau i bobl ifanc yr ardal sydd wedi derbyn canlyniadau arholiadau lefel A a TGAU. Dymunwn bob llwyddiant iddynt yn y dyfodol.

## Ymddeol

Mae Elina Davies, Bronallt wedi penderfynu ymddeol fel dosbarthwr y Tincer yn Llandre. Mae Elina wedi bod yn dosbarthu'r Tincer ers y cychwyn cyntaf. Diolch i ti Elina.

## Treftadaeth Llandre

Medi 29 - Y teulu Williams o Dy'n y bedw - Randall Enoch. Cynhelir cyfarfodydd yn Ysgoldy Bethlehem, Llandre gan gychwyn am 7.30 hy.

## Merched y Wawr Genau'r-glyn

Cyfunodd y gangen ei Chyfarfod Blynyddol â'r trip pentymor eleni, ac fe'i cynhaliwyd yng ngwesty'r Cross Foxes, ger Dolgellau. Y swyddogion am y flwyddyn sydd i ddod yw Cadeirydd: Marian Jenkins, Is-ysgrifennydd: Gwenda James, Ysgrifennydd: Llinos Evans, Is-Ysgrifennydd: Linda Jones. Cytunodd Mair England i barhau yn drysorydd am y tro. Diolchodd Marian Jenkins i Nans Morgan y cyn-ysgrifennydd a Llinos Dafis, y cyn gadeirydd, am eu gwaith.

## Priodas ruddem

Llongyfarchiadau i Wynne a Linda Melville Jones, y Berllan, a ddathlodd eu priodas ruddem ar Awst 14eg

## Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn â Mrs Agnes Griffiths a'r teulu, 1 Maes Henllan ar farwolaeth ei gŵr Ronald Griffiths ar Awst 28ain.

Cofiwch anfon eich newyddion neu gyfarchion i'r rhifyn nesa at Mair England, rhif ffôn: 01970 828693; e-bost : mairllo@hotmail.co.uk .

pennau craft and coffee shop
Bow Street, ger Aberystwyth
Ffôn (01970) 820050

COFFI BOREUOL
*****
BYRBRYDAU POETH NEU OER
*****
CINIO
*****
TE PRYNHAWN
*****
CREFFTAU AC ANRHEGION
*****

Ar agor saith niwrnod yr wythnos Mehefin, Gorffennaf, Awst a Medi (fek arall, ar gau ar ddydd Llun)

Siop Treasures. Tlysau a gemwaith (yn cynnwys dylunwyr Cymreig), scarffiau a chyfwisgoedd priodasol. Gwasanaeth enwau tai ar lechen a llwyau caru. Deunyddiau gwnio, yn cynnwys offer DMC, Anchor, Heritage, Derwentwater ac eraill.
Ffôn: 01970 820122

siop grefft a choffi pennau

**GWASANAETH TEIPIO**
Cysylltwch â
Mrs Glenwen Morgans
Heulwen
Garth
Penrhyn-coch
Ffôn: 01970 820385
Ebost: glenwen.morgans@btopenworld.com

ytincer@googlemail.com

# CLARACH

Cafodd y merlyn mynydd Cymreig yma ddiwrnod llwyddiannus iawn yn sioe Tal-y-bont ar y 27ain o Awst. Perchennog y ceffyl, o'r enw Claremore Nero, yw Debbie Allen o Langorwen, Clarach. Cafodd y ceffyl ei fridio gan Mr. D. G. Morgan, Blaen-plwyf, sef Bridfa Claremore. Enillodd nifer o wobrwyon yn cynnwys cyntaf yn y dosbarth i "Geffyl Adran A" ac eto yn y dosbarth "Mynydd a Gweundir" gydag Anya Edwardes o Gapel Bangor yn ei farchogaeth.

Cafodd Anna Allen Jones a'i ffrind Anya hwyl yn gwisgo lan fel Pooh Bear a Tigger i ennill y wobr gyntaf yn y gystadleuaeth "Gwisg ffansi". Roedd Nero wedi bodloni cael ei wisgo lan fel Eeyore yr asyn, o'r llyfr Winnie the Pooh.

Gwnaeth y merlyn ac Anya eu gwaith yn berffaith yn y dosbarth i "Ddangosydd Ifanc" ble roedd yn cael ei ddangos mewn llaw, heb gael ei farchogaeth, ac fe ddaeth yn gyntaf unwaith eto. Prynwyd y merlyn pan oedd yn dair oed ac Anna yn 5 oed ac maent wedi cael llawer o hwyl yn tyfu lan gyda'i gilydd.Yn y merlyn bach yma gallwn weld esiampl arbennig o ferlyn mynydd Cymreig ac mae'n dangos pa mor amryddawn y gall ceffylau cynhenid Cymru fod.






# PEN-LLWYN A CAPEL BANGOR

### Ysbyty

Hyderwn fod Miss Ann Vaughan, Gwarddol; Mr Gerald Ingram, Sunnycroft a Mr Noel Scott, Brynawel, yn well, neu gobeithio yn iach erbyn hyn; ar ôl bod yn yr ysbyty yn ystod misoedd yr haf.

Hefyd cafodd Mrs Ann Edwards, Hyfrydle, Blaengeuffordd, driniaeth yn ysbyty Llanelli y mis diwethaf, ac yn gwella yn araf deg erbyn hyn. Pob dymuniad da Ann am lwyr wellhad.

### Pen blwydd Arbennig

Llongyfarchiadau i Mrs Enid Vaughan, Maesawel, ar gyrraedd y garreg filltir, 80 mlwydd oed, ar y 7fed o Awst.

Carai Mrs Vaughan ddiolch o galon i bawb a ddanfonodd iddi ddymuniadau gorau ar ei phen blwydd, yn gardiau, negeseuon ffôn, ymweliadau a chyfraniadau yn lle anrhegion.

Diolch yn fawr i berthnasau a chyfeillion oll, am eu cyfraniadau tuag at Cronfa y Gwahangleifion. Hyn oedd dymuniad Enid Vaughan, a derbyniwyd swm anrhydeddus iawn i'r gronfa.

Diolch i bob un eto ar ran Mrs Vaughan am gyfrannu i'r achos teilwng hwn.

### Capel Pen-llwyn

Hyfryd oedd croesawu ein cyn weinidog y Parchg Morris P Morris o Ruthun, ar ddydd Sul olaf mis Awst. Roedd ei bregeth yr un mor rymus a bendithiol ag erioed. Daeth Esyllt a Llŷr hefyd i gadw cwmni iddo, a da oedd gweld y plant wedi datblygu yn bobl ieuainc bellach. Danfonwyd ein cofion at Mrs Glenda Morris ac Elan, hwythau wedi methu a dod y tro hyn, gan fod Elan yn anffodus wedi torri ei braich.

### Swydd Newydd

Dymuniadau gorau yr ardal i Miss Delyth Davies, Maencrannog, sydd wedi dechrau ei swydd newydd yn y Llyfrgell Genedlaethol. Hyderwn y byddwch yn hapus iawn yno, Delyth.

### Diolch

Dymuna Christine Charlton ddiolch o galon am y rhoddion, cardiau a'r dymuniadau da a dderbyniodd ar ôl ei hymddeoliad ar ddiwedd Ebrill. Carai ddiolch hefyd i holl ddisgyblion, staff, rhieni a llywodraethwyr Ysgol Pen-llwyn am drefnu a pharatoi 'Parti Ffarwel' byth-gofiadwy ar ei chyfer yn neuadd Capel Bangor. Dymuna'r gorau i Mr Emyr Pugh- Evans, Mr Berian Lewis Pennaeth Cynorthwyol yr ysgol, y staff a'r disgyblion oll.

### Ar y teledu

Hyfryd oedd gweld Neula Jones, Maes y Neuadd, ar y teledu ym mis Awst. Llongyfarchiadau mawr iti Neula ar ennill yr ail wobr yn y Sioe Cobiau Rhyngwladol yn Llanelwedd yn ddiweddar.

Gwelwyd hefyd Lisa Saycell yn ymddangos ar ei cheffyl yr un noson. Go lew chi, sêr y sgrîn fach!

# SIOE CAPEL BANGOR

Bu Sioe Capel Bangor yn un llwyddiannus iawn eleni eto. Cafwyd cystadlu brwd yn adran y ceffylau, y defaid ac yn y babell. Enillwyd y cwpan am yr anifail gorau yn y Sioe gan deulu Broehedydd Pennant a nhw hefyd enillodd Cwpan Coffa John Davies Glasfryn am yr anifail ifanc gorau. Eleni am y tro cyntaf cyflwynwyd pedol arbennig i'r Ceffyl gwedd a oedd wedi ei bedoli orau ym marn y beirniad. Pedol wedi ei gwneud gan y diweddar Clive y Gof, Abermagwr ar gyfer Rheidol George - un o geffylau gwedd Fridfa Rheidol Aber-ffrwd yw hon ac fe'i cyflwynwyd i'r Sioe gan Barry Matthews, Y Gamlyn, Dick a David Davies Troedrhiwceir a Peter Davies Cwmsymlog er cof am Clive. Yr enillwyr oedd Elfed a Louise Davies, Castellnewydd Emlyn a chyflwynwyd y bedol iddynt gan Rhian Davies, merch Clive. Mae pwyllgor y Sioe yn ddiolchgar iawn iddynt am y rhodd werthfawr yma, mae eu haelioni i'r Sioe yn arbennig iawn. Llywydd y Sioe eleni yw Eifion Thomas, Ty'ncwm, un sydd wedi bod ynghlwm â'r Sioe ers y dechrau. Cafwyd araith arbennig ganddo a hefyd rodd haelionus iawn i goffrau y Sioe. Bu yna gystadlu brwd iawn yn y babell gyda'r wobr am y gacen orau yn mynd i Richard Edwards, 2 Pen-llwyn, gydag Alun Jenkins, y Pandy, yn ennill y darian am y nifer uchaf o bwyntiau i drigolion lleol.

Hoffai y pwyllgor ddiolch o galon i'r Llywydd am ei waith drwy'r dydd ac am ei rodd haelionus, i bawb a fu yn stiwardio ac i'r gymdogaeth am eu cefnogaeth eleni eto.

Cynhelir pwyllgor blynyddol y Sioe nos Fercher Tachwedd 2il; am fwy o wybodaeth cofiwch am y wefan www.capelbangorshow.co.uk

# DÔL-Y-BONT

## Llwyddiant

Llongyfarchiadau mawr i ddau o fechgyn y pentref ar eu llwyddiant yr haf yma. Jacob Billingsley, Dolwar wedi llwyddo mor arbennig gyda'r TGAU yn Ysgol Gyfun Penweddig ac am fynd i'r chweched dosbarth yn ysgol Pen-glais a Ben Williams, Y Tanery yn mynd i Brifysgol Lerpwl yn dilyn ei lwyddiant lefel A. Pob hwyl i'r ddau ohonoch

FFENESTRI
IMEJ
FFENESTRI PVCu, HEULFANNAU, DRYSAU a.y.y.b. Am y GWASANETH, PRIS a'r SAFON GORAU gan GWMNI LLEOL
*Sefydledig dros 30 mlynedd*
Edrychwch am y Tŷ Twt
01970 880330
Marilyn a Ifor Jones
Cofrestrwyd gyda FENSA

# ABER-FFRWD A CHWMRHEIDOL

## Cofion

Anfonwn ein cofion cynhesaf at Vivian Morgan, Is-y-Coed, Aber-ffrwd sydd yn Ysbyty Bron-glais ar hyn o bryd.

## Cydymdeimlad

Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â Hywel Ellis, Hywelfan, ar farwolaeth modryb yn Llundain ddechrau 'r haf.

## Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i David Davies, Troedrhiwceir, ar gael ei ddewis yn chwaraewr gorau Clwb Rygbi Tregaron y tymor diwethaf. Mae David hefyd wedi cipio nifer o wobrau mewn sioeau lleol gyda'i ebol gwedd o Fridfa Rheidol; mae David yn dod yn enw adnabyddus iawn ym myd y ceffylau gwedd. Llongyfarchiadau hefyd i Dafydd a Sian Morris, Neuadd Parc, ar eu llwyddiant yn y Sioe Frenhinol a hefyd yn y Sioe Ryngwladol a gynhaliwyd yn Llanelwedd ddechrau Awst. Aeth Neuadd Parc Welsh Anthem ymlaen i gipio y gul-wobr yn adran C y Cobiau Cymreig mewn dosbarth cryf iawn.

## Digwyddiadau

Cwrdd Diolchgarwch Capel Llwyn-y-groes nos Iau Medi 29ain, am 7.00y.h yng ngofal y Parchg Judith Morris, Penrhyn-coch.

## STATKRAFT

Dydd Sul Awst18 cynhaliwyd diwrnod o ddathlu ym Mhwerdy Cwmrheidol gan fod trydan wedi ei gynhyrchu yma ers hanner can mlynedd. Gwahoddwyd holl weithwyr dros y cyfnod yn ôl yn y bore a chafwyd hanes y dechreuad gan Mair Stanleigh, Dolfawr. 'Roedd hi a'i diweddar ŵr newydd symud i Dolfawr a gorfu iddynt werthu rhan o'u tir i adeiladu y Pwerdy. Clywyd am y sioc a gafodd pawb pan ddaeth y "Registered Letter" drwy'r post, doedd neb lawer wedi gweld y fath amlen o'r blaen!'Roedd nifer o aelodau staff Statkraft wedi dod draw o Norwy ar gyfer yr achlysur. Cynhaliwyd prynhawn o hwyl i'r plant ac yna fin nos daeth nifer dda o bobl y cwm ynghyd i fwynhau Barbeciw wedi ei drefnu gan staff Statkraft. Gorffennwyd y noson gyda gêm o rownderi o dan ofal Liam Lucas, Tynewydd. Cafwyd noson yn llawn hwyl gyda'r hen a'r ifanc yn cael noson wrth eu bodd.



Cyn aelodau o staff a Mair Stanleigh yn niwrnod hwyl Statkraft



Tîm rownderi gyda'r hwyr

# BOW STREET

## Suliau Medi

Capel y Garn
10 a 5
Gweler http://www.capelygarn.org/
Medi
18 Bugail (Cymun)
25 Adrian P Williams
Hydref
2 Richard Lewis (yn Noddfa)
Raymond Davies
9 Oedfa'r Ofalaeth
16 Bugail
23 Maldwyn C John
30 Bugail

## Dechrau Canu Dechrau Canmol

Darlledir y rhaglen gyntaf Dechrau Canu Dechrau Canmol o Gapel y Garn, nos Sul, Hydref yr 2il.

## Llwyddiant Eisteddfodol

Llongyfarchiadau i Geraint Davies, Casnewydd, mab Ken a Jane Davies, Maes Ceiro - ar ennill y wobr am gyfansoddiad ar gyfer ensemble pres mewn arddull jazz neu blues yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Wrecsam.

## Cwrs offeiriad

Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Rhun Gwynedd ap Rhobert, Caerdydd ar gael ei ddewis fel darpar offeiriad gyda'r Eglwys yng Nghymru. Dymuniadau gorau iddo - bydd yn dechrau cwrs hyfforddi ddiwedd Medi.



Fe fu Elis Wyn Lewis o Bow Street, sydd yn 12 oed, yn chwarae mewn cystadleuaeth golff arbennig ar ddechrau Mehefin lan yn Gullane wrth ymyl Caeredin. Roedd Elis yn ymuno gyda chwaraewyr o nifer o wahanol wledydd ar draws y byd yng Nghystadleuaeth Ewrop, ac fe orffennodd yn safle 19 allan o rhyw 65 yn ei adran. Roedd Elis, sydd yn aelod o glwb golff y Borth, wedi mwynhau yn fawr iawn y profiad o chwarae gyda bechgyn o Loegr, yr Alban, Ffrainc, Denmarc, Colombia ac Awstralia. Yn y llun gwelir Elis gyda cyd -chwaraewr, Jens Christan Tvergaard o Ddenmarc.

## Cydymdeimlad

Cydymdeimlwn â Carole Davies, Neuadd ar farwolaeth sydyn ei mab Peter Thompson - fu farw wrth ei waith fel postmon ym Mhenrhyn-coch ar 22 Gorffennaf.

Taenwyd ton o dristwch drwy'r ardal o glywed y newyddion trist am farwolaeth Dr Gwion Rhys, Nefyn, trwy ddamwain ddydd Mawrth, 12 Gorffennaf. Cydymdeimlir yn ddwys a diffuant iawn a'i rieni, Alun ac Enid Jones, ac â Garmon, Lowri a'r teulu yng Nghaerdydd yn eu profedigaeth lem. Gweler y deyrnged ar t.10.

Estynnwn ein cydymdeimlad â Noel a Maureen Morgan, Bryn Meillion, ar farwolaeth tad Noel ddechrau'r haf.

## Diolch

Hoffai Gareth a Gaenor, Hafle, ddiolch yn fawr iawn am y cardiau a'r dymuniadau da a dderbyniwyd ar achlysur dathlu eu priodas ruddem ar ddiwedd mis Gorffennaf.

## Diolch

Hoffai Enid ac Alun Jones, Gwyddfor Bow Street ddiolch am bob arwydd o gydymdeimlad yn dilyn marwolaeth Gwion Rhys ac am bob cyfraniad i'w gronfa goffa i Ambilwans Awyr Cymru sydd wedi cyrraedd £7,000 erbyn hyn. Bu cydymdeimlad yr ardal o gymorth mawr i ni wrth geisio dygymod â'r golled.

MUDIAD YSGOLION MEITHRIN

**Cylch Meithrin Rhydypennau**

Addysg cyfrwng Cymraeg i blant 2½ oed. Bob Bore Llun, Mawrth a Mercher yn Ysgol Rhydypennau. 9.00am -12.00pm yn ystod y tymor ysgol. £6 sesiwn. I wybod mwy cysylltwch ag arweinyddes y Cylch, Sue Davies ar 820065.

**Ti a Fi Llandre**

Cyfle arbennig i chi chwarae a chymdeithasu gyda'ch plant. Bob bore Gwener, 9.30am – 11.30am yn Ysgoldy Bethlehem, Llandre. £1.50 y teulu gan gynnwys paned a bwyd bore i'r plant.

Gwasanaeth Gwybodaeth Ceredigion i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd

Chwilio am ofal plant?
Eisiau gwybod sut i fod yn ofalwr/wraig plant?
Chwilio am weithgareddau plant a phobl ifanc, eisiau mwy o wybodaeth.

Cysylltwch â ni am fanylion pellach

Ffôn
01545 574187
E-bost
cis@ceredigion.gov.uk
Gwefan
http://cis.ceredigion.gov.uk

Neuadd Cyngor Ceredigion
Swyddfeydd Cyngor Sir,
Penmorfa,
Aberaeron,
Ceredigion,
SA46 0PA

# Cofio Dr Gwion Rhys

Rydym ni'n dueddol o fesur bywyd yn nhermau nifer y blynyddoedd a gaiff person a bod byw am oes hir yn rhywbeth i ymhyfrydu ynddo. Ac yn hynny o beth, cafodd Gwion gam. Ond os awn ni ati i fesur bywyd yn nhermau'r hyn a gafodd ei gyflawni, yna mae'n stori wahanol iawn. Yn wir fe fedrwn ddweud bod Gwion wedi cael oes hir a llewyrchus iawn a'i fod wedi rhagori a llwyddo'n eithriadol.

Ganed Gwion Rhys ar y 3ydd o Dachwedd 1972, yn fab i Alun ac Enid Jones, a'i fagu yn ardal Rhydypennau. Aeth, yn naturiol i Ysgol Rhydypennau, ac yna i Ysgol Penweddig ac wedi cyrraedd y 6ed dosbarth y dechreuodd Gwion ddisgleirio ac erbyn hynny roedd ganddo nod bendant o'r hyn y dymunai ei ddilyn fel gyrfa. Fe gafodd y canlyniadau lefel A gorau trwy'r ysgol drwy ennill pedair gradd A, ac ymhlith yr uchaf drwy'r wlad yn ei arholiad Ffiseg. Ers yn blentyn bach roedd ganddo ddiddordeb eithriadol ym myd meddygaeth, gan fod ei fam yn nyrsio wrth gwrs. Mae 'na hanes amdano yn yr ysbyty yn bedair oed yn dioddef o asthma, a rhywun yn gofyn iddo a oedd y doctor wedi bod wrth ei wely ac wedi rhoi corn ar ei frest? Stethescope da chi'n feddwl, ife? medda Gwion wrtho - fel y bydd hogiau pedair oed yn ei wneud!



**Gyrfa**
Yn dilyn ei lwyddiant yn yr arholiadau Safon A, fe aeth i goleg Meddygol Manceinion i hyfforddi ar gyfer bod yn feddyg. Wedi graddio fe aeth Gwion i Goleg Meddygol Caerdydd i baratoi at fod yn feddyg teulu, ac yna fe gwblhaodd ei ail radd, a dod yn 'Member of the Royal College of General Practitioners, a'i phasio gydag anrhydedd! Roedd Owain newydd ei eni a ddim yn dda yn yr ysbyty ar y pryd, ond fe aeth Gwion i Lundain i sefyll yr arholiad, heb sylweddoli ei fod wedi llwyddo i ennill gradd anrhydedd eisoes yn y modiwlau eraill. Ond o nabod Gwion, hyd yn oed petai e wedi sylweddoli ei fod wedi pasio eisoes, fyddai hynny ddim wedi gwneud dim gwahaniaeth. Doedd hanner ymdrech ddim yn ei natur e - dim ond gwneud ei orau glas bob amser.

**Teulu**
Yn ystod ei gyfnod yn y coleg y cyfarfu â'i gymar, Manon, hithau wedi'i hyfforddi i fod yn athrawes. Diolch am ofal a chariad Manon ohono - roedd Gwion bob amser yn fodlon ei fyd ac yn cyfrif ei hun yn ffodus iawn o gael teulu mor arbennig. Roedd Gwion bob amser yn brysur - fe gyfeiriodd rhywun ato fel 'multi tasker'. Mae 'na stori amdano yn cynghori meddyg arall ar y ffôn sut i drwsio'i gyfrifiadur, yn newid clwt Deio ac yn yfed panad o de ar yr un pryd.

Ond un peth a gâi'r flaenoriaeth dros y cyfan oedd ei blant annwyl, Owain, Luned, Ifan a Deio wrth gwrs - nhw oedd cannwyll ei lygaid o. Wrth ei fodd yn sgwrsio, chwarae a rhoi cyngor am eu gwaith iddyn nhw. Mae 'na stori, ar ôl symud i Lanarmon, gyda rhestr hyd ei fraich o bethe roedd angen ei wneud yn y tŷ, y dasg gyntaf a wnaeth Gwion oedd adeiladu den i'r plant i fyny ar un o'r coed yn yr ardd - dyna oedd yn bwysig iddo fe - fod y plant yn hapus.

**Tair A**
Wrth geisio cyflwyno darlun i chi o Gwion roedd hi'n amlwg fod gen i dri phennawd a'r tri gair yn agor gyda'r llythyren A - oherwydd i Gwion yn ystod ei holl fywyd, dim ond un llythyren a fynnai ei sylw - y llythyren A.

**Addfwyn ac annwyl**
Wrth i ni feddwl amdano fe fyddwn ni'n ei gofio fel person addfwyn ac annwyl. Dyna mae Manon am i ni bwysleisio yn fwy na dim - ei addfwynder a'i anwyldeb, ac yn arbennig gyda nhw fel teulu a'r plant. Dyna'r nodweddion hefyd mae cynifer o'i gleifion wedi cyfeirio ato - ei addfwynder a'i anwyldeb yn ei ofal drostyn nhw. Doedd dim byd yn ormod iddo, a gwnâi nifer o ymweliadau annisgwyl ac ychwanegol ar ei ffordd adre o'r gwaith.

**Angerddol ac amyneddgar**
Roedd e hefyd yn berson angerddol ac amyneddgar ym mhob dim - o ddifri, a brwdfrydig - doedd hanner gwneud rhywbeth ddim yn ddigon da, a doedd ildio cyn sicrhau ateb i broblem ddim yn opsiwn. Roedd ganddo amynedd di-baid, ac angerdd i wneud pob dim hyd eithaf ei allu.

**Athrylith**
Yna down ni at y trydydd A - athrylith. Na tydi galw Gwion yn athrylith ddim yn gor-ddweud o gwbl.

Gaf i rannu ambell brofiad gyda chi, i brofi ei fod yn athrylith. Roedd y ffasiwn wybodaeth ganddo yn anhygoel ac yn fy syfrdanu. Roedd e wedi adeiladu ei gyfrifiadur ei hun - tipyn o beiriant mae'n debyg. Be sy'n cwlio eich cyfrifiadur chi? Ffan mae'n debyg. Be am un Gwion? Roedd e wedi dyfeisio sustem ddŵr i oeri'r cyfrifiadur! Roedd e'n medru ysgrifennu rhaglenni ar gyfer y cyfrifiadur, creu meddalwedd arbennig ar gyfer ei feddygfa er mwyn medru casglu gwybodaeth am ganlyniadau ei gleifion a thynnu sylw'r meddyg at unrhyw broblemau ac afiechydon a allai ddatblygu. Lledaenwyd y rhaglen ymhlith meddygon Gwynedd, ac yn wir bu'n cynghori'r Cynulliad yn genedlaethol ar y defnydd o gyfrifiaduron ym maes iechyd. A chafodd Gwion erioed wers yn ymwneud â chyfrifiaduron yn ei fywyd - athrylith!

**Cerddorol**
Mae Pat (Jones — arweinydd Cor Eifionydd) wedi sôn amdano fe'n cyrraedd yr ymarferion yn hwyr, ei wynt yn ei ddwrn, wedi anghofio ei gopïau o'r darnau i'w canu, cria sgidia heb eu clymu a'i ddillad ymhell o fod yn daclus. Ac eto, fe fyddai'r unig un a fyddai'n gwybod y geiriau i gyd, ac yn medru canu'r caneuon. Roedd y Côr, mae'n debyg, mewn nosweithiau cymdeithasol yn osgoi canu 'Llongau Caernarfon', oherwydd mynnai Gwion ganu'r chwe phennill a dim ond fe a wyddai'r holl benillion. Ac o'i gael mewn hwyl ar ddiwedd noson medrai ganu 24 pennill o'r gân 'Brethyn Glân... Bu'n eisteddfota yn ifanc fel unigolyn gan ennill nifer o weithiau yn y Genedlaethol ar lefaru. Bu'n arwain steddfod y gylchwyl yma yn Chwilog yn gynharach eleni, eto gyda'i hynawsedd a'i addfwynder arferol. Roedd e yn medru chwarae'r mandolin yn feistrolgar, a'r boran y drwm Celtaidd hefyd - athrylith.

**Crefftwr**
Ac mae 'na gymaint o feysydd eraill hefyd - roedd e'n grefftwr - a'i ddawn yn amlwg i'w weld o gwmpas y tŷ - yn saer coed cywrain iawn. Roedd y tŷ bach twt yn yr ardd yn gampwaith ynddo'i hun, ac wedi adeiladu ffrâm gardd berlysiau yn ddiweddar - ac yn ei dro yn defnyddio'r perlysiau hynny ei hun wrth goginio - roedd yn chwip o gogydd hefyd - ac mae'r rhestr yn parhau a hyn i gyd y tu allan i'w waith pob dydd.

Does ryfedd chwaith iddo gyflawni cymaint - o gofio'r fagwraeth a gawsai o - a stoc y teulu - o feddwl am Alun ac Enid, a Thaid a Nain Tyn Gors - fe gafodd bob cyfle, pob cariad a chael dysgu trwy esiampl. A dyna fydd gyda'r pedwar ohonoch chi blant hefyd - mae Dad wedi dysgu cymaint i chi - o fod ar ben sied yn trwsio to gydag Owain, i'r storïe a'r caneuon mae e wedi'i dysgu i chi a'r holl brofiadau a gawsoch chi.

A tydw i ddim yn dweud hyn yn ysgafn, ond mae gen i bob ffydd a hyder y byddi di Manon a'r pedwar ohonoch chi ac Alun ac Enid yn cael y nerth i wynebu bywyd. Bydd, fe fydd na hiraeth, ond mae'r un rhuddin ynoch chi ag oedd yn Gwion, y penderfyniad i lwyddo ac ymdrechu ym mhob dim.

**Teyrnged a gyflwynwyd i Dr Gwion Rhys ar ddydd ei angladd, Gorffennaf 18fed 2011 gan y Parchg Aled Davies, Chwilog.**

# MADOG, DEWI A CEFN-LLWYD

**Madog**
2.00
18 Bugail
25 Adrian P Williams

*Hydref*
2 Raymond Davies
9 Oedfa'r Ofalaeth yn y Garn am 10.00
16 Bugail
23 Maldwyn C John
30 Bugail

## Eisteddfodol

Llongyfarchiadau i Gwen Sims-Williams, Gwarcwm, ar ennill gwobr yn yr Eisteddfod Genedlaethol am gyfieithu Woyzzeck, Buchner i'r Gymraeg.

## Gwellhad buan

Dymunwn wellhad buan i Angharad Rowlands, Talar Deg.

## Cydymdeimlad

Cydymdeimlwn â Dilwyn a Catherine Thomas a'r teulu, Brynheulog, ar golli mam Dilwyn — Mrs Mary Thomas, Llanllwni.

Ar y 14 o Orffennaf bu farw Graham Edwards, Delfryn. Cydymdeimlwn gyda'i wraig Debbie a'r meibion Gareth a Philyp.

## Sioeau

Bu yn dymor llwyddiannus i lawer o amgylch y sioeau; teuluoedd Deilyn a Felin Hen; Hywel Evans, Dai Evans, Huw Jones ac Aled Llŷr. Derbyniodd Aled hefyd wobr arbennig yn y Sioe Frenhinol yn Llanelwedd — gweler isod.

## Enillydd cyntaf Gwobr newydd

Sefydlwyd y wobr flynyddol hon i gydnabod cyfraniad y diweddar Brynle Williams, cyn Aelod Cynulliad y Gogledd, i amaethyddiaeth Cymru fel AC ac fel ffermwr. Bydd hefyd yn dathlu llwyddiant ffermwyr ifanc sydd wedi derbyn cymorth fel rhan o Gynllun Cymorth Newydd - ddyfodiaid Llywodraeth Cymru. Wrth gyhoeddi'r enillydd yn Sioe Frenhinol Cymru gyda Mary Williams, gweddw'r diweddar Brynle Williams, dywedodd y Dirprwy Weinidog Amaethyddiaeth Alun Davies,

"Rwy'n gwybod faint roedd Brynle yn mwynhau'r Sioe a'r fraint o gael cais i feirniadu Pencampwriaeth 'Supreme In Hand' a Rhagbrofion 'Cuddy Supreme' y llynedd. Mae'n briodol felly ein bod yn nodi ymrwymiad Brynle heddiw drwy gyhoeddi enillydd cyntaf Gwobr Goffa Brynle Williams."Roedd y ffermwyr yn y rownd derfynol i gyd yn rhan o Gynllun Cymorth Newydd-ddyfodiaid Llywodraeth Cymru ac roedd safon y ceisiadau yn uchel iawn.

"Mae'r enillydd, Aled Llŷr Thomas, eisoes yn gwneud ei farc yn y cylchoedd bridio defaid, gyda'i stoc bridio yn ennill nifer o wobrau mewn Sioeau Sir ar draws y wlad. Diolch i'r Cynllun Cymorth mae Aled wedi gallu codi sied ddefaid newydd sy'n golygu y bydd lle i 100 yn fwy o famogiaid (o 75 i 175) dros y blynyddoedd nesaf."Dyma'r math o entrepreneur ifanc rydyn ni eisiau'i weld yn ffynnu ac yn llwyddo yn niwydiant ffermio Cymru. Drwy gefnogi ffermwyr ifanc drwy'r Cynllun Cymorth Newydd-ddyfodiaid, gallwn ni sicrhau dyfodol cryf i ffermio yng Nghymru."Rwy'n gobeithio y bydd y wobr hon yn ffordd deilwng o goffáu Brynle a'i gariad at y Gymru wledig. Rwy'n gwybod y byddai'n cytuno bod Aled yn enillydd teilwng iawn.

## Addysgiadol

Dymunwn yn dda i Megan Evans, Llain y Felin sydd yn dechrau yn Ysgol Penrhyn-coch.

Llongyfarchiadau i'r canlynol yn arholiadau lefel A AS a TGAU — Mari Havard, Menna Pugh Jones, Gerallt Hywel, Ifan Hywel, Ceri Gwin-Morgan, Rhys Wallace, Llŷr Jones, Elin Wallace, Gwilym Simms-Williams, Hanna Meredydd;

Hefyd i Siân Evans, Fronfraith ar ddechrau cwrs astudiaethau plant ym Mhrifysgol Aberystwyth;

I Mared Hughes, Gwarcwm Hên ym Mhrifysgol Caerdydd;

I Llŷr Jones, Felin Hen yng Ngholeg Amaeth Gelli Aur ac i Rhys, Troedrhiw yn ei swydd cynorthwyydd dosbarth yn Ysgol Pen-glais.

## Graddio

Llongyfarchiadau i Hanna Binks ar raddio mewn Seicoleg ym Mhrifysgol Bangor; dymuniadau gorau ar y radd ymchwil ar gyfer doethur.



Priodwyd Michael ac Ursula Reeves yn Harrow Weald. Mae Michael yn ŵyr i'r diweddar Mr a Mrs Elfyn Williams, Ysgubor Newydd.

## Gwefan newydd

Mae gwefan newydd wedi ei lansio gan Ruth Jên yn ddiweddar. Gweler http://www.ruthjen.co.uk

## Gwellhad buan

Dymunwn wellhad buan i Lyn Evans, Deilyn, ar ôl ei thriniaeth yn Ysbyty Singleton, Abertawe.


A ydych wedi cofrestru eto?

Cyngor Sir Ceredigion
Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron SA46 0PA

Os nad ydych chi ar y Gofrestr Etholiadol efallai na fyddwch yn medru cael credyd, na bwrw'ch pleidlais mewn etholiad.



*Bydd y ffurflenni cofrestru yn dod drwy'r post yn fuan*

COFRESTRWCH A PHLEIDLEISIWCH

☎ 01545 572033 / 01545 572277

# PENRHYN-COCH

## Suliau

**Horeb**
*Medi*
18 2.30 Oedfa dan ofal Sion Meredith
25 10.30 Oedfa bregethu Gweinidog

*Hydref*
2 2.30 Oedfa Gymun Gweinidog
9 10.30 Oedfa deuluol Gweinidog
16 2.30 Oedfa bregeth Gweinidog
23 10.30 Oedfa bregeth Gweinidog
30 10.30 Oedfa Bregeth Y Parchg Peter M. Thomas

**Salem**
*Medi*
25 2pm Y Parchg Richard H Lewis
*Hydref*
9 10am Bethel, Tal-y-bont Cyfarfod Diolchgarwch Undebol (plant)
23 5pm Y Parchg Richard H Lewis — Cymundeb

## Cydymdeimlad

Cydymdeimlwn yn ddwys â'r Parchedig Peter Thomas a'r teulu ar golli mam Peter yn ystod mis Gorffennaf.

## Brysiwch wella!

Dymuniadau gorau i Bethan Davies, Glan Ceulan; Henry Thomas, Cwmfelin a'n gohebydd Mairwen Jones, Tan-y-berth sydd wedi derbyn triniaeth mewn ysbytai.

## Croeso nol

Croeso nol o Gapel Bangor i Benrhyn-coch i Melanie a Dan Hughes a Charlie.

## Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn â Bethan, Steffan a Trystan Thompson, Dôl Helyg ar farwolaeth sydyn Peter Thompson a fu farw wrth ei waith fel postmon ddydd Gwener 22 Gorffennaf. Agorwyd cronfa i'r teulu ac mae blwch yn y siop i dderbyn cyfraniadau hyd at ddiwedd Medi.

## Coleg

Llongyfarchiadau i'r canlynol am eu canlyniadau lefel A a dymuniadau gorau iddynt yn eu gwahanol golegau - Elin Fanning (Astudiaethau Busnes ym Mhrifysgol Lerpwl); Carys Jones (Almaeneg a Sbaeneg ym Mhrifysgol Caerdydd); Heledd Jones (Diploma estyngedig mewn cynhyrchiad cyfryngau creadigol yng Ngholeg Ceredigion), Lowri Morgan (Cynllunio Graffeg ym Mhrifysgol y Drindod Dewi Sant, Rachel Davies (Keele), Jessica Davies (Morgannwg), Joe Thomas (Morgannwg), a Louisa Scannell (Aberystwyth).

## Cydymdeimlad

Cydymdeimlwn â Tom ac Alwen Fanning a'r teulu, Ger-y-llan, ar farwolaeth chwaer Tom yn ddiweddar ac â Mervyn a Sue Hughes a'r teulu ar farwolaeth Geraint Rees-Jones, brawd Sue ym Mhorthmadog ar Fedi 4ydd



Seren Jenkins, Charlotte Richmond a Beca Jenkins, enillwyr cystadleuaeth Sioe Penrhyn-coch i'r Brownies – addurno masgiau.



Iwan Bryn a Nerys Roberts, Garn Wen, a briodwyd ar 16 Gorffennaf yng Nghapel Horeb. Dymuniadau gorau iddynt hwy ac i'r mab bach Iestyn Bryn.



Dymuniadau gorau i Lowri Evans (Refail Fach) a Tom Guy a briodwyd ar Fedi'r 1af yn Horeb, Penrhyn-coch ac sydd wedi ymgartrefu yng Nghaerdydd.
Llun: Keith Morris

## Eisteddfod Penrhyn-coch

Cyhoeddodd Mairwen Jones, Ysgrifennydd Eisteddfod Gadeiriol Penrhyn-coch - a gynhelir ar nos Wener a dydd Sadwrn, Ebrill 20fed a 21ain 2012 yn Neuadd y Penrhyn mai'r beirniaid fydd
Gwener:
Cerdd — Elin Mair, Derwen-gam
Llefaru — Lowri Steffan, Llanilar
Sadwrn:
Cerdd - Ann Atkinson, Corwen
Llefaru a Llenyddiaeth: Dorothy Jones, Llan-gwm
Pe hoffech dderbyn copi o'r rhaglen trwy e-bost pan fyddai allan cysylltwch â Rhoshelyg@btinternet.com

## Ffordd ar gau

Bydd y ffordd o Bont Rhydyrysgaw, Glanceulan i Ben-cwm ar gau am 6 wythnos ar gyfer gwaith ffordd o ddydd Llun 5 Medi ymlaen

## Pen blwydd arbennig

Cyfarchion am ben blwydd hapus i Menna Jenkins, Hafan y Waun, Waun-fawr a ddathlodd ei phen blwydd yn 90 oed ar Fedi 3ydd.

## Dyweddiad

Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Ceri John, Ger-y-llan a Chaerdydd ar ei ddyweddiad yn ddiweddar â Luned Jones, Llanrug, a Chaerdydd.

## Oedfa arbennig

Ddydd Sul 24 Gorffennaf 2011 cafwyd oedfa arbennig yn Horeb yng nghwmni Rhiannon Williams a'i gŵr Huw (Dolau gynt), a oedd yn cyfeilio iddi.



Mae Rhiannon yn paratoi traethawd doethuriaeth ym Mhrifysgol Morgannwg ar y Capel, y Gymuned a Pherfformiad. Cafwyd perfformiad yn seiliedig ar ei phrofiadau yn ei chapel ym Mhontiets gan ddwyn atgofion i bawb o brofiadau cyffelyb. Diolchwyd yn gynnes iddi gan y Parchgn Judith Morris a Peter Thomas. Edrychwn ymlaen at gydweithio â hi yn yr hydref. Ar hyn o bryd mae Rhiannon a Huw ar eu mis mêl yn Ne America ac wedi ymweld â Machu Pichu ac â'r Wladfa ym Mhatagonia lle rhoddodd Rhiannon bedwar perfformiad i gynulleidfaoedd.

## Golygydd Y Cylchgrawn *Efengylaidd*

Mae golygydd newydd y Cylchgrawn *Efengylaidd* yn byw ym Mhenrhyn-coch. Mae Steffan Jones - sydd yn olynu Robert Rhys fel golygydd - yn frodor o Rydaman. Bu'n fyfyriwr hanes ym Mhrifysgol Caerdydd cyn gweithio i Fudiad Efengylaidd Cymru a yna UCCF (Cymdeithas Gristnogol Prifysgolion a Cholegau). Erbyn hyn mae'n gweithio i Eglwys Efengylaidd Aberystwyth. Yn briod a Catherine, mae ganddynt un plentyn - Dewi - ac un arall ar y ffordd ac yn byw yng Nger-y-llan.



## Enillwyr Sioe

Llongyfarchiadau i'r ddau frawd o Pen-banc - John James, ar ddod yn gyntaf am gi cyflymaf Sioe Tal-y-bont gyda Boost a Llŷr James am ddod yn gyntaf yn adran y gwartheg am dda biff.

## Cydymdeimlad

Cydymdeimlwn â John Urry, Ger-y-nant, a'r teulu ar farwolaeth ei wraig Vera ar Orffennaf 1af.

## Symud ardal

Llongyfarchiadau i Gareth Evans Rowlands, Pontypridd (Maesyrefail gynt) ar dderbyn swydd yng Ngholeg Meirion-Dwyfor, Dolgellau, lle mae yn gweithio ers dechrau'r mis gyda ieuenctid sydd â anghenion arbennig yn yr adranau garddwriaeth a chymdeithaseg.

## Llwyddiant yn y Sioe Frenhinol

Llongyfarchiadau i Glyn ac Eileen Rowlands, Frondeg, am ennill cymaint o wobrau ar eu hymdrech gyntaf ar gystadlu yn y Sioe Frenhinol yn Llanelwedd.
Hwrdd dyflwydd a drosodd 2il a 4ydd
Hwrdd blwydd 6ed
Oen fagwyd gan ddafad 2011 6ed
Oen benyw 3ydd
Grŵp gorau - hwrdd - dafad - oen 1af
Maent yn ddiolchgar i'w bugail Tomos Hulme a'i gariad Zoe.

## Newid ardal

Dymuniadau gorau i Vera Dakin, 15 Maesyrefail, sydd wedi symud i ardal Leicester ar ôl byw ym Mhenrhyn-coch am dros ugain mlynedd. Croeso i Nathan, Linsey a'r mab Oliver fydd yn symud o Aberystwyth yn fuan i 15 Maesyrefail.

## Apêl Pen Pal

Wrth deithio trwy wledydd India a Sri Lanka yn ddiweddar, fe gafodd Lynne Hughes (Ger-y-llan) ei syfrdanu nad oedd y plant bach ar y strydoedd yn gofyn am arian ond yn crefu am bensiliau a 'beiros' ac felly fe benderfynodd Lynne lansio apêl "Pen Pal" sef casglu cymaint er mwyn eu gyrru i'r plant.

Os gallwch chi helpu Lynne trwy gyfrannu pensil neu feiro, fe fydd Mervyn neu Sue Hughes, 47 Ger-y-Llan yn falch o'u derbyn. Diolch o galon.

## Graddio a swydd

Llongyfarchiadau i Lydia Adams, Glynhelyg a raddiodd mewn cerddoriaeth ym Mangor eleni; dymuniadau gorau iddi yn ei gwaith fel gweithiwr Relay hefo UCCF (University Colleges Christian Fellowship) ym Mangor y flwyddyn nesaf.

## Geni ŵyr

Llongyfarchiadau i'r Parchg John a Katherine Livingstone ar ddod yn dad-cu a mam-gu. Ganwyd mab - Morgan Glanmor - i Thomas Livingstone a'i briod Laura ganol mis Gorffennaf.



Pob dymuniad da i Rhian Dobson, Cae Mawr ac Iwan Gareth, Llan Ffestiniog, a briodwyd ar Orffennaf 2il yn Horeb. Maent yn byw yng Nghaernarfon.
Llun: Geraint Thomas, Panorama, Caernarfon.

## Clwb Cymunedol Penrhyn-coch

Bydd y Clwb yn cyfarfod yn Neuadd yr Eglwys dyddiau Mercher 28 Medi, 12 a 26 Hydref. Cysylltwch â Egryn Evans 828 987 am fwy o fanylion neu i fwcio eich cinio.

## Sefydlu rheithor

Dydd Iau Medi 13eg sefydlwyd y Parchg John Bennett yn rheithor â gofal o blwyfi Aberteifi gyda Mwnt, Y Ferwig a Llangoedmor. Bu John a Barbara yn byw ym Maesyrefail pan ddarlithiaid John yn y Coleg Amaethyddol ynghanol yr 80au. Bu am yr wyth mlynedd ddiwethaf yng ngofal Llanrhian a Llanhywel yn Sir Benfro.

## Cydymdeimlad

Cydymdeimlwn â Ken Evans, Coedgruffydd ar farwolaeth ei frawd Geraint yng Nghartref Tregerddan - gynt o Llawrcwmbach, Cwm Eleri, Tal-y-bont.; hefyd â theulu Bod Organ a gollodd dair modryb yn ddiweddar..

ytincer@googlemail.com

# GOGINAN



### Priodas

Priodwyd merch John a Barbara Clarke, Nant yr Arian, yn Eglwys Capel Bangor ar yr ail o Orffennaf. Mae Jane a Danny Bowden yn y fyddin ac ar hyn o bryd mae Jane yn Melton Mowbray a Danny wedi ei leoli yn Poole, Dorset. Pob lwc i'r ddau yn y dyfodol.

### Croeso

Braf yw cael croesawu David a Paula Wilcockson a'i plant Alice a Toby sydd wedi ymgartrefu yn Erwdeg. Gobeithio y byddant yn hapus yn ein plith.

### Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn a Maud a Eifion Evans, Bronwydd ar farwolaeth brawd Maud dechrau'r haf yn Llanilar.

### Arddangos yn Beverly Hills

Bu misoedd yr haf yn adeg gynhyrfus i Heather Eastes, Swyddfa Post, Goginan. Mi dderbyniodd e-bost oddi wrth Edward Lucie-Smith, arlunydd enwog o America, yn ei gwahodd i ddanfon tri siampl o'i gwaith er mwyn iddo eu harddangos yn y "Garboushian Gallery" yn Beverly Hills, Los Angeles a hefyd un i arddangos yn y Torrance Museum. Roedd Harry Holland a Siani Rhys James a gwaith yn cael ei arddangos ar y pryd hefyd. Ond nid yn yr America yn unig fu gwaith Heather ond hefyd mewn arddangosfa yn y Cynulliad yng Nghaerdydd o Orffennaf 4 hyd at 29 gyda dau o'i ffrindiau sef Ceri Thomas a Ken Elias.

Dyma ddywedir yn y rhagair Daeth Eastes, Elias, a Thomas ynghyd ar eu Taith yn 2011. Unwyd hwy mewn cyfeillgarwch, nid yn unig fel aelodau o'r Grŵp Cymreig dros lawer blwyddyn, ond hefyd wrth iddynt gydnabod unigoliaeth eu gwaith a'u ffyrdd o fyw. Mae gan y naill barch a diddordeb ynglŷn â gwaith y llall sy'n ffynnu o'r difrifoldeb a'r unigoliaeth a ddengys mewn ffyrdd o greu celf sy'n hollol ar wahân i duedd neu fasiwn.

Mae eu gwaith ar raddfa gymedrol fychan mewn cymhariaeth a rhai o'u cyfoeswyr, ac yn aml mwynhânt ddefnyddio mynegiant personol. Trwy sylw, cof, cydfodaeth, dychymyg, a breuddwyd, cymerant agweddau o'u bywydau i greu delweddau meddylgar a barddonol.

Felly er bod eu gweledigaeth yn allanol, mae eu taith creadigol yn fewnol. Mae taith hudol y naill a'r llall yn dechrau gyda cherbydau delwedd sy'n rhithiol a chyfeiriadol, er ydynt ffynnu tu fewn diffiniad profiad a bywyd. Ar ôl clytiau niwlog byd hedegog a rhithlunol Eastes, fe welwn arwynebau a gofodau mud, anferth, cysegredig, anwys Elias, ac i ddilyn, problemau gogleisiol a phrofoclyd Thomas sydd wedi eu seilio ar bortreadau o'i hunan ag eraill.

Mae'r canlyniadau i'w gweld yn hollol wahanol. Ond wrth edrych ymhellach efallai gytunwch bod Eastes ,Elias, a Thomas ynghyd yn cynhyrchu enghreifftiau o wirioneb hudol Cymreig, a hwn trwy eu cais oesol, ddychmygol i ddarganfod, yn lleol yng Nghymru ac yn pob unigolyn, y cyffredinoldeb sy'n perthyn i ni gyd.

Llun o waith Heather Eastes a fu mewn arddangosfa yn America



# COLOFN MRS JONES

A dyma flwyddyn arall yn cychwyn yn hanes y Tincer wrth iddo ailgychwyn ar ôl ei wyliau haf. A phethau rhyfedd yw'r rheini. Roeddwn yn ebostio cyfnither i mi y dydd o'r blaen ac yn rhyw hanner cwyno nad oeddwn wedi medru cymryd fy ngwyliau blynyddol eto. Daeth ei hateb gyda'r troad yn datgan yn eglur ddigon na wyddwn fy ngeni. Roedd hi wedi treulio'r haf yn magu ei hwyres ac er ei bod wedi mwynhau'r profiad, roedd wedi treulio yr haf yn chwarae sioffyr yn gyrru'r fechan yma a thraw o wersi marchogaeth i wersi drama a chanu ac wedi llywyddu sawl 'sleepover'. 'Mi rydw i', meddai, 'wedi blino gormod i fynd ar fy ngwyliau hyd yn oed petai gennyf rai ar y gweill!'

Digon teg ond mewn rhyw ddeuddydd neu ddau, dyma ebost gan ei brawd, hwnnw wedi bod ar ei wyliau, i'r union ran o Sbaen yr ydw i yn mynd iddo ym mis Hydref. A nid oedd dim wedi ei blesio. Roedd y gwlau yn galed a'r bwyd yn ffiaidd os nad oedd rhywun yn hoffi octopws a malwod, a'r tywydd yn boeth a'r ciniawau nos yn afresymol o hwyr. Ni allai ef gychwyn deall paham na gysgent lai yn y prynhawn i fynd i'w gwlau yn gynnar fel y medrent fwyta eu swper ar awr resymol. Nid oedd hyd yn oed y sieri wedi ei blesio. Aeth mor bell a'm gorchymyn i wario fy arian ar fynd i rywle arall. Fodd bynnag, glynu at fy nghynlluniau gwreiddiol a wnaf. Mater bach yw osgoi octopws a llyffaint a malwod ac yr wyf yn eithaf hoff o siestas ar wyliau - ac o wlau caled petai yn dod i hynny.


Mae pawb ohonom, wrth gwrs, wedi cael gwyliau hunllefus ryw bryd neu ei gilydd a mae'n bosibl eu hosgoi. Un ffordd yw gwneud eich gwaith cartref cyn cychwyn. Fe wn i, yn eistedd yn fan yma yn teipio hwn, na waeth i mi heb a meddwl am dripiau i wledydd oer neu dripiau yn golygu llongau bach, felly nid oes unrhyw siawns y gwelwch chi fi yn mynd i astudio pengwins mewn unrhyw le heblaw sw. Peidio dewis lle sydd yn groes i'ch galluoedd corfforol a'ch sgiliau chi ydi un wers bwysig wrth ddewis gwyliau, dewis lle sydd yn gydnaws â chi ydi'r llall. Mae fy nghefnder yn enwog am fod yn gynnar i'w wely ac yn gynnar ohono, felly roedd hi yn gyfangwbl amlwg nad oedd gwlad ffordd arall rownd yn mynd i'w siwtio yn enwedig os oedd atyniadau yn cau am y prynhawn. Nid yw, ychwaith, yn credu mewn mentro gyda ei fwyd, a fe ddylai fod wedi meddwl hynny drosto ei hun.

Bwyd ar wyliau yw'r maen tramgwydd mwyaf. I mi, rhan o'r hwyl yw trïo pethau newydd,fe wn nad wyf yn hoffi'r pethau a restrais uchod am fy mod wedi eu profi ac yn gwybod nad ydynt at fy nant. Yn wir, yr wyf yn rhyfeddu eu bod at ddant unrhyw un ond mae'n amlwg eu bod. At ei gilydd, fe rof gynnig unwaith ar y rhan fwyaf o bethau er fe wrthodwn yn blwmp ac yn blaen fwyta ymenydd na chi na cheffyl. Ni archebais i erioed stec yn Ffrainc, rhag ofn, na bwyta salami yno ychwaith. Ond rhagfarn yw hyn, mi wn. Y mae digon o Ffrancwyr a Ffilipinos a daerai mewn llys barn beth mor flasus yw cŵn a cheffylau ac y mae digon o bobl ym Mhrydain sydd yn mwynhau brens. Roedd fy mam yn eu mwynhau, wedi eu ffrio yn ysgafn gydag ychydig fenyn a garlleg neu wedi eu poetsio mewn gwin gwyn ond edrych arni yn eu bwyta mewn arswyd a wnai'r gweddill o'r teulu. Cymaint arswyd yn wir, fel y rhoddodd fy mam yr arfer heibio.

Ac wrth inni waredu at ymarferion bwyta tramor, mae'n rhaid i ni gofio fod gennym ni, ym Mhrydain ambell i fwyd go ych a fi. Cocos, er enghraifft, fyddai waeth ichi fwyta india rwber yn fy nhyb i. A bara lawr, gwymon yw, medden nhw, ond fe welais i ddigonedd o beth digon tebyg mewn ambell i gae gwartheg yn y gwanwyn a'r borfa yn ffres. A mae yna reswm da paham nad yw siot a llymru a brwes pig tegell yn dal yn boblogaidd.

Rhyw deithio mewn gobaith y mae rhywun, yn gobeithio y bydd yn mwynhau ei hun ac yn dweud iddo gael gwerth ei bres a chyfle da i ymlacio. Mae teithio yn ehangu gorwelion y meddwl - a bwrw fod yna feddwl i'w ehangu,wrth gwrs.

# ADOLYGIADAU




*Appy: Bont, Busnes a Byd y Bêl. Hunangofiant Meirion Appleton*, gyda Lyn Ebenezer
Y Lolfa 140t. £9.95

Wn i ddim pryd y darllenais i lyfr mor afaelgar, hynod ac amrywiol â hwn.

Mae'n agor gyda disgrifiad dwys-delynegol o'r awdur yn blentyn saith oed ym mhriodas ei fam â'i lystad William John, ac yn ein tywys wedyn i hanes dod o hyd i'w dad biolegol, gŵr y bu'n cwmnïa ag ef droeon heb i'r un o'r ddau grybwyll eu bod yn dad a mab. At y mater yna y mae'r awdur yn dychwelyd ar y diwedd gyda'r 'un cwestiwn a fydd yn aros heb ei ateb am byth: pam na ddywedodd Mam?'

Fel pob hunangofiant gwerth ei ddarllen, mae'r gyfrol yn gronicl o gyfnod ac o gymdeithas yn gymaint ag o hanes bywyd unigolyn, ac mae'r darlun a gawn ni yma o hwyl a helynt bywyd gogledd Ceredigion, yn gefn gwlad a thref, o ddiwedd yr Ail Ryfel Byd ymlaen, yn fywiog ac yn llachar. Drwy gyfrwng storïau, portreadau bachog o gymeriadau, a disgrifiadau o lefydd a sefyllfaoedd, mae'r awdur yn mynd â ni reit mewn i wead y cymunedau a'r cylchoedd y cafodd e gymaint o flas ar fyw ynddyn nhw. Rydyn ni fel petaen ni yna'n hunain. Nid bach o ddawn lenyddol sy'n gwneud peth felly'n bosibl

Ond mae'n barod i ddinoethi'i enaid ei hunan yn ogystal. Wrth olrhain ei yrfa ryfeddol ym myd busnes, o ddim i'r entrychion ac wedyn i fethdaliad, mae'r naratif weithiau'n garlamus, weithiau'n afiaethus, ac ar dro — mae'n cyfaddef iddo ystyried hunan-laddiad ar un adeg — yn ingol. Wrth droi wedyn at ei anturiaethau, ei lwyddiannau a'i siomedigaethau ym myd pêl droed (a fu, meddai 'yn grefydd imi') mae ei sylwadau ar ymddygiad bradwrus ambell un a ystyriodd yn gyfaill iddo yn dangos parodrwydd iachus o ddiofn i ddweud pethau fel y maen nhw. Os yw e ar adegau yn ymffrostio, mae'n gwneud hynny mewn ffordd hynod o hoffus — diniwed bron. Ac mae'n fwy na pharod hefyd i gwympo dan ei fai, megis wrth ddisgrifio'i ymddygiad ei hunan yn dilyn ei sacio fel rheolydd Clwb Pêl Droed Aberystwyth. 'Mae surni,' meddai, 'yn eich bwyta chi o'r tu fewn.'

Dyma lyfr difyr, darllenadwy, lliwgar, yn cyfuno'r digrif a'r dwys mewn modd trawiadol iawn. Mi aethen i ymhellach. Yn rhinwedd y darlunio craff sydd ynddo o agweddau a esgeuluswyd ar fywyd Cymru yn ail hanner yr ugeinfed ganrif, mae hwn yn llyfr pwysig.

Wrth saernio'r gyfrol a dod o hyd i arddull gartrefol ond gwreichiog i roi hanes Meirion Appleton ar ddu a gwyn, fe gadd Lyn Ebenezer hwyl ryfeddol ar ei dasg. Yr unig fai a welais i yw ei duedd gyson i arfer y gystrawen anhyfryd 'fe wnes i fynd', 'fe wnaethon ni ennill' ac ati, yn lle'r 'fe es i', 'fe enillon ni' naturiol a llafar. Ond ysywaeth mae Lyn ymhell o fod ar ei ben ei hunan yn y diffyg ffasiynol yma.


**Cynog Dafis**

---

*Cadw'r Byd i Droi: Hanes Cledwyn Evans* golygwyd gan Lyn Ebeneser
Cyhoeddwyr: Gwasg Carreg Gwalch (Cyfres Syniad Da) 94t £5

Ymhlith y miliynau o gerbydau newydd sydd ar y ffordd fawr ym Mhrydain, gallwch fod yn siŵr fod tuag un o bob pedwar yn rhedeg ar deiers a werthwyd gan gwmni o Aberystwyth, sef Cledwyn Tyres. Sefydlwyd y fenter gan Cledwyn Evans yn 1971. Erbyn heddiw mae'r trosiant yn ddegau o filiynau o bunnoedd y flwyddyn a'r busnes yn nwylo'i ddau fab a'i wyres.


Aeth deugain mlynedd heibio ers i Cledwyn Evans ddechrau gwerthu teiers a setiau radio ceir. Yn ogystal ag adrodd hanes y fenter mae'r gyfrol yn codi'r llen ar ofynion byd busnes, y gystadleuaeth, yr angen i allu darparu nwyddau angenrheidiol ar yr adeg




briodol ac ymateb i newidiadau, ac yn bennaf oll efallai yr angen am gyfalaf digonol a safle addas.

Mae'r llyfr yn gasgliad o hanesion difyr am Cledwyn a'i gyfoedion yn eu hieuenctid yn gwibio ar hyd hewlydd y sir a thu hwnt ar eu moto-beics, ac o wybodaeth berthnasol i bobl sy'n meddwl am fentro i fyd busnes.

---




*Richard E Huws The Footballers of Borth and Ynys-las, 1873 — 1950*
Cyhoeddwyd gan yr awdur. 24t £5

Pêldroedwyr y Borth ac Ynys-las sydd dan chwyddwydr Richard Huws y tro hwn. 1897 yw dyddiad y llun cyntaf o dîm y Borth, a thîm Borth United 1948-49 yw testun yr olaf. Rhwng y ddau lun mae toreth o wybodaeth am dim y Borth a'r Ynys-las Gunners (1937 a 1939), ynghyd â rhestr faith o'r rhai a fu'n chwarae i'r ddau dîm. Yn atodiad i hanes y timau ceir tablau Cynghrair Aberystwyth a'r Ardal. Diddorol!

James Memorials
Am
GOFEBAU ARBENNIG
BEDDARGRAFFIADAU
ADNEWYDDU O SAFON
ARWYDDION AR DAI
A BUSNESAU
Gofynnwch am bamffled rhad ac am ddim
James Memorials
Vicarage Crossing,
Llandre, Bow Street
Ffôn (01970) 820 111

GOLCHDY LLANBADARN
CYTUNDEB GOLCHI
GWASANAETH GOLCHI
DUFET MAWR
CITS CHWARAEON
FFÔN: 01970 612459
MOB: 07967 235687
GERAINT JAMES

SIOP A SWYDDFA BOST PENRHYN-COCH
Perchennog: Lawrence Kelly
Ar agor
Llun - Sadwrn
7 y bore - 9 yr hwyr
Sul
7 y bore - 7 yr hwyr
papurau dyddiol a'r Sul
llyfrgell fideo
cardiau cyfarch
siop drwyddedig
FFÔN: 828312

RHODRI JONES
Brici a chontractiwr adeiladu
07815 121 238
Gwaith cerrig
Adeiladu o'r newydd
Estyniadau Patios
Waliau gardd
Llandre Bow Street

eich gwefan leol
www.trefeurig.org
newyddion i
golygydd@trefeurig.org
William Howells,
Rhyd-y-gof, Penrhyn-coch,
Aberystwyth SY23 3EQ

# DANIEL DAVIES

*Tair Rheol Annhrefn* yw teitl y nofel fuddugol yng nghystadleuaeth Daniel Owen eleni. Dr Daniel Davies, Maesmeurig yw'r awdur. Ym maes crisialau hylifol yr enillodd ei ddoethuriaeth; roedd e'n un o fyfyrwyr olaf Adran Cemeg Prifysgol Aberystwyth.

Cafodd ei fagu yn Llanarth, yn fab i blismon y pentref. Roedd hynny'n debyg i fod yn fab i weinidog, meddai, - braidd ar gyrion y gymdeithas a disgwyliadau uchel o ymddygiad gweddus!

Ym Methlehem ger Llandeilo y magwyd ei dad ar aelwyd ddi-Gymraeg. O'r de diwydiannol yr hanai ei dad-cu; yn yr Old Kent Road yn Llundain roedd gwreiddiau ei fam-gu. Mae gwreiddiau ei fam yn nwfn yn ardal Undodaidd Cwmsychpant. Mae ei fam bellach yn un o wirfoddolwyr Siop y Smotyn Du yn Llanbed. Tra'n gwasanaethu gyda'r heddlu yn ardal Ceinewydd y meistrolodd ei dad y Gymraeg. Bu farw yn 1990, cyn i'w fab gwblhau ei ddoethuriaeth.

Atgofion hapus sydd gan Daniel am ei blentydod a'i addysg yn ysgolion Llanarth ac Aberaeron — lle bu'n gapten tím criced yr ysgol. Bu hefyd yn chwarae i dím Ceredigion a thím y Gwerinwyr.

Pobl a'r rhwydweithiau rhyngddyn nhw yw ei ddiddordeb — y bobl hynny sydd dan wyneb cymdeithas, byth yn dod i'r newyddion. Mae'n olrhain hyn i'w brofiadau cynnar yn cyfarfod á phobl o wahanol haenau cymdeithasol yn Swyddfa'r Heddlu ac yng nghwmni ei dad wrth ei waith. Bu ei brofiadau amrywiol ym myd gwaith yn fodd i gynyddu ei adnabyddiaeth o bobl o'r fath. Bu'n gweithio gydag adeiladydd, yn ateb ymholiadau BT ar linell 192, yn ohebydd Dyffryn Dyfi i'r *Cambrian News*, yn newyddiadurwr ar lein o'r Canolbarth i'r BBC, yn gweithio i'r Cynulliad yn Swyddfa Cyllid Ewrop yng Nghymru, ac yn gynhyrchydd Where I Live i'r BBC ar y we. Ar hyn o bryd mae'n newyddiadurwr ar lein i'r BBC yn gweithio o Aberystwyth.



Bwrodd ei brentisiaeth lenyddol yn ysgrifennu storïau byrion. Ei lwyddiant cyntaf oedd dod yn ail yng nghystadleuaeth stori fer Taliesin ar gyfer pobl dan 30ain. Mae'n werthfawrogol iawn o gefnogaeth John Rowlands, golygydd *Taliesin* ar y pryd.

Yn 2001 yr ymddangosodd ei nofel gyntaf, *Pele*. Yn 2003 galluogodd grant gan yr Academi ef i fod yn rhydd o hualau cyflogaeth am chwe mis i ysgrifennu ei ail nofel, *Gerson a'r Angel*. O'r pum nofel y mae wedi eu cyhoeddi cyn hyn ei ffefryn yw *Gwylliaid Glyndwr*.

Mae Dickens, Daniel Owen, Fielding, Jane Austen, Balzac, Dostoevsky, Waugh, Wodehouse, Heller, Vonnegut, Roth, Jacob Dafis, Eurwyn Pontsián ac Eigra Lewis Roberts ymhlith yr awduron y mae wedi cael budd o'u darllen.

Ei hoffterau? - fish fingers, cwrw, Schubert a Wagner, gwrando criced ar y radio, a cherdded. Fydd e byth yn mynd ar daith gerdded, pa mor bell bynnag, heb ei radio, i gael clywed y criced. Petai'n cael dewis noson allan, noson yn y Llew Du yn Aberystwyth fyddai hi. Mae hefyd yn gobeithio, yn wir yn bwriadu, ymweld á'r Weriniaeth Tsiec ryw ddiwrnod.

Y pethau gorau sydd wedi digwydd iddo ar wahán i ennill gwobr Daniel Owen? Cael ei fagu gan ei rieni, a chwrdd á Linda, ei gymar.

Y peth mae e fwyaf balch o fod wedi ei gyflawni? Sgori 7 rhediad am 2 wiced i dîm criced y Gwerinwyr yn erbyn tîm Llanarth!

**Llinos Dafis**


# Barbeciw Horeb

Ar 22ain o Orffennaf cynhaliwyd barbeciw i aelodau a chyfeillion gan Horeb. Diolch i bawb a gyfrannodd i lwyddiant y noson ac yn arbennig i Sandra a Mansel am baratoi'r bwyd blasus ac i Sian am gael defnyddio'r stablau. Gwnaed elw o £200 i gartref Tregerddan. Gan ei bod yn 80 mlynedd ers adeiladu festri Horeb cafwyd cystadleuaeth dynnu lluniau i'r plant — Joio yn y festri — wedi ei drefnu gan Ceri Williams. Bu Derfel Reynolds a Cerys Humphreys yn beirniadu a'r buddugol oedd Martha Rowlands (iau) a Beca Jenkins (hŷn). Daeth y noson ddifyr i ben gyda Mairwen Jones yn hel atgofion am y Festri trwy adrodd nifer o benillion.











Poster sy'n dangos un agwedd ar y gweithgarwch ar ran aelodau Capel Horeb, yn eu hymdrech i godi festri wrth ymyl y capel. Codwyd hi dair blynedd ar ôl y Sale of Work a hysbysebir yma ac a gynhaliwyd yn hen ysgol y pentref. Y poster trwy garedigrwydd Mrs Mairwen Jones. Tincer 40 (Meh - Gorff 1981)



Agorwyd Festri Horeb trannoeth Gŵyl Banc Awst 1931 gan Miss Agnes Morgan, Llanbadarn a saif cydrhwng y Parchedigion O. E. Williams a D ap Morgan, Goginan. Eraill yn y darlun uchod yw J LewisEvans, pensaer, y Parchg Walter G. Thomas, B.D., Mrs R. M. Davies, Llandre a'i chwaer Mrs Isaac Davies a Mrs O.E. Williams. Y bachgen sy'n eistedd ar y fainc a'i gefn at y camera yw Mr Irfon Rhys Williams, Cae Mawr.

Erbyn diwedd y Rhyfel Byd Cyntaf disgynnodd yr aelodaeth rhywle rhwng 100-110 a theimlwyd yr angen am adeilad llai o faint at amryfal ofynion yr aelodaeth. Breuddwyd y gweindog, y Parch O.J. Williams oedd sicrhau festri i'r capel. Ystyriwyd neilltuo rhan o'r capel ond barnwyd na fedrid hynny yn hawdd felly aed ati i drefnu cronfa aelodau ac er mwyn hybu'r bwriad aeth y chwiorydd ati i drefnu cyfres o arwerthiannau o' i gwaith llaw eu hunain gan droir mans yn weithdy o dan ofal gwraig y gweinidog. Cymerodd saith mlynedd o ymroi diwyd a dygn cyn casglu'r £639.18s a dalwyd am adeiladu a dodrefnu'r festri. Fe'i cynlluniwyd gan John Lewis Evans, Aberystwyth a'i chodi gan L. J. Evans. Tregaron (taid y sylwebydd mabolgampau a glywir ar Radio a theledu Cymru).

(o erthygl gan Dr David Jenkins yn y Tincer )

# YSGOL PEN-LLWYN

### Mabolgampau

Ar brynhawn hyfryd o haf fe aeth y plant a tyrfa o rieni a ffrindiau i fyny i faes Statkraft yng Nghwmrheidol ar gyfer mabolgampau'r ysgol. Fe gafwyd rhaglen amrywiol o gystadlu. Er fod nifer o'r rasus yn glos doedd dim angen troi am gymorth y ffotograff o gwbl! Yr ydym yn ddiolchgar i gwmni Statkraft am gynnig llecyn mor hyfryd i'r ysgol unwaith eto ac am werthu hufen ia mor flasus.

### Ffair Ysgol a'r Taith Gerdded

Fe drefnodd Cymdeithas Rhieni Athrawon ffair a thaith noddedig ar Ddydd Sadwrn Mehefin 18. Fe gerddodd criw dda o rieni, plant a staff o Goginan i'r ysgol lle roedd yna farbeciw yn disgwyl. Roedd plant dosbarth 2 wedi bod yn brysur yn cynllunio rhai stondinau a doedd dim amheuaeth fod dyfodol posib ym myd busnes o'u blaen. Mi oedd sôn o'r trysorydd fod hyd yn oed y banc wedi synnu fod cyfanswm o £1,233 wedi ei godi.

### Trip Ysgol

Fe brofodd y plant y pleser o deithio ar fws, tren a chwch ar y trip ysgol a gynhaliwyd ar Fehefin 18fed. Fe gawsom drip o Dywyn ar dren Tal-y-llyn ac yna mewn cwch i grombil y ddaear yn Labrinth Arthur yng Nghorris. Yn anffodus ni fuom yn llwyddiannus wrth edrych am siop sglodion ar agor ym Machynlleth ond roedd pawb yn hapus i gael hufen ia yn y Borth cyn dychwelyd adref erbyn swper.

### Gofal Dannedd

A ddylid golchi'r dannedd o fewn awr o yfed diod melys? Mi oedd y rhan fwyaf o'r plant o'r farn mae golchi fyddai orau. Hynny yw, hyd nes i'r nyrs ein perswadio na ddylid gwneud hyn gan y gallai gwneud drwg i'r dannedd. Roedd yn ymweliad diddorol iawn a wnaeth argraff ar y plant. Gobeithio bydd y neges bwysig yma yn cael dylanwad yn y tymor hir.

### Gwasanaeth gadael Blwyddyn 6

Trist oedd dweud ffarwel i ddisgyblion flwyddyn 6 yn ystod wythnos diwethaf y tymor. Fe ddaeth nifer o rieni ynghyd i'r gwasanaeth. Fel rhan o'r prynhawn fe ddangoswyd fideo yn cynnwys rhai o atgofion y plant o'u hamser yn yr ysgol. Fe darrodd araith Mrs Charlton, a ddychwelodd yn arbennig, nodyn pwrpasol wrth edrych i'r gorffennol ac ymlaen i'r dyfodol hefyd.

### Bags for Schools

Diolch i bawb a gyfrannodd hen ddillad yn ddiweddar. Yr ydym yn edrych ymlaen i glywed faint o arian a godwyd i gronfa'r ysgol .

### Sioe Capel Bangor

Fe weithiodd nifer o rieni yn galed i baratoi stondin yr ysgol yn Sioe Capel Bangor. Roedd y sĐn i'w glywed o bell wrth i bawb gael hwyl yn taflu peli at hen ddarnau o lestri. Braf oedd gweld nifer o'r plant yn cydweithio i gwblhau'r gêm bwyta'n iach hefyd. Rhaid diolch yn arbennig i Cathryn Morgan am weithio mor galed i baratoi y stondin o flaen llaw ac am frwdfrydedd yr holl rieni a fu mor barod i helpu.

### Gwella'r adeilad

Braf oedd dychwelyd wedi'r gwyliau i ddarganfod yr ysgol ar ei newydd wedd. Mwy o fanylion i ddilyn.

### Twitter

Os am glywed 'tweets' o'r ysgol dilynwch @ysgolpenllwyn.



Plant yn mwynhau ar stondin yr ysgol yn y Sioe


Tomos Evans yn cyflwyno'r dillad a gasglwyd ar gyfer Bags for Schools i'r gyrrwr


Plant dosbarth 1 yn dysgu am ofal dannedd


Rhai o'r plant yn breuddwydio am yrru tren go iawn yn y dyfodol.


Llyr, Alaw a Haf yn dathlu yn y sioe

# YSGOL CRAIG YR WYLFA

### Croeso

Tymor newydd yn Ysgol Gynradd Craig yr Wylfa. Cyfnod cyffrous yn ein hanes. Hoffwn groesawu staff newydd - sef Mr. Peter Leggett fel Pennaeth Cynorthwyol fydd yn cyd-weithio efo Mr. Hefin Jones, sef y Pennaeth â Gofal. Dymunwn yn dda i Mrs. Carol Davies a diolchwn yn fawr iawn iddi am ei chyfraniad i fywyd a gwaith Ysgol Craig yr Wylfa.

### Pob Lwc!

Dymuniadau gorau i blant blwyddyn 6 llynedd sydd bellach wedi symud i'r ysgol uwchradd. Mawr obeithiwn eu bod nhw i gyd wedi ymgartrefu yn eu hysgolion newydd ac yn dilyn gyrfaoedd llwyddiannus a hapus.

Mae plant dosbarth Mr. Leggett wedi bod yn brysur yn cydweithio er mwyn marchnata a gwerthu 'Smoothies' Masnach Deg. Bwriad y prosiect oedd datblygu sgiliau cyfathrebu a chydweithio'r disgyblion. Fel tîm, roedd rhaid i'r plant wneud a chytuno ar benderfyniadau pwysig er mwyn ceisio gwerthu mwy o smoothies na'r grwpiau eraill. Cafodd y plant llawer o hwyl gyda'r dasg a chodwyd tipyn o arian hefyd! Diolch yn fawr i'r rhieni ac i'r ymwelwyr am eu cefnogaeth, ac yn arbennig i'r plant am eu holl waith caled.




Yn y llun efo plant Ysgol Craig yr Wylfa gwelir Rheolwr Safle Bam Nuttall, Ray Jones, yn cyflwyno gwobrau cystadleuaeth llunio poster 'Diogelwch'. Derbyniodd yr enillwyr £20.00 yr un, a derbyniodd yr ysgol rodd ariannol o £50.00 Dymuna'r ysgol ddiolch yn fawr i Ray Jones a chwmni Bam Nuttall am eu haelioni. Yn y llun o'r chwith i'r dde: Jonah Williamson-Evans, Lily Price, Eliza Williams, Anna Williams, George Evans a Ray Jones.



Plant Cyfnod Allweddol 2 Ysgol Craig yr Wylfa yn paratoi ar gyfer cystadleuaeth debyg i'r 'Apprentice'!



Pawb yn mwynhau y 'Picnic Tedi Bêr' yn Ysgol Craig yr Wylfa



Cafwyd diwrnod i'r brenin ar ein taith ysgol eleni i'r Parc Dinosoriaid, Dinbych y Pysgod. Roedd y tywydd yn hyfryd a bu'r plant yn prysur redeg o un atyniad i'r llall. Roedd y daith bws adref yn o dawel!!



Disgyblion Blwyddyn 6 yn mwynhau cacen ar eu diwrnod olaf!




Braf iawn oedd cael dadorchuddio y mosaic newydd sbon yn ddiweddar wrth fynedfa'r ysgol.
Bu'r plant yn gweithio gyda'r arlunydd cymunedol Pod Clare er mwyn cynllunio a chreu mosaic croesawgar wrth glwydi'r ysgol. Penderfynodd y plant gynllunio rhywbeth fyddai'n cynrychioli'r gweithgareddau sy'n digwydd yn yr ysgol a'r pethau oedd yn bwysig iddyn nhw. Cyfrannodd pob un plentyn at y prosiect. Talwyd am y gwaith allan o gronfa'r diweddar Peter Glover, Y Borth.

# YSGOL RHYDYPENNAU

## Prysurdeb

Ar ddechrau blwyddyn academaidd arall, mae prysurdeb yr ysgol yn parhau. Yn barod, rydym yn y broses o ethol, trwy bleidlais, y Cyngor Ysgol. Fel pob blwyddyn arall mi fydd, aelodau'r cyngor yn cwrdd yn rheolaidd er mwyn gwneud penderfyniadau pwysig a sicrhau llais swyddogol i weddill y disgyblion. Yn ychwanegol i hyn, ac ar ôl cwblhau ffurflenni cais a chyfweliadau gyda'r prifathro, mae blwyddyn 6 yn ran o Griw Cŵl yr ysgol. Maent yn gyfrifol am nifer o ddyletswyddau pwysig yn ystod y flwyddyn.

## Ffarwelio

Hoffai'r ysgol ddymuno pob hwyl i blant blwyddyn 6 y llynedd wrth iddynt ddechrau bywyd addysgol newydd yn yr ysgolion uwchradd. Derbyniodd pob un ohonynt rodd wrth ymadael â'r ysgol am y tro olaf. Hoffai'r ysgol ddiolch hefyd i Mrs Linda Gay. Bu Linda yn gaffaeliad mawr i'r ysgol am chwe mlynedd. Ymddeoliad Hapus!

## Garddwest yr ysgol

Ar y 24ain o Fehefin cynhaliwyd Garddwest yr ysgol. Eleni eto, penderfynwyd ei chynnal ar nos Wener ac fe agorwyd yr arddwest yn swyddogol gan Mr a Mrs Tudor Gethin. Cafwyd nifer o weithgareddau difyr ac amryw o stondinau pwrpasol er mwyn codi arian i'r ysgol. Hoffai'r ysgol ddiolch o galon i Gymdeithas Rhieni ac Athrawon yr ysgol am drefnu'r noson ac i rieni a chyfeillion yr ysgol a fu'n barod iawn i gynnig cymorth hefyd. Diolch i'n prif noddwr, Anthony Motors; ac i noddwyr y gwobrau, Gerwyn Evans y Saer, Y Railway Inn, y Borth; a'r Garddwr, Robert Griffiths am eu cyfraniadau hael hwy. Mi fydd yr arian a godwyd yn ystod y noson yn gymorth sylweddol i brynu adnoddau pwysig iawn er mwyn hyrwyddo addysg pob plentyn yn yr ysgol.

Dal lan â'r digwyddiadau

## Mabolgampau

Cynhaliwyd ein mabolgampau eleni ar y 4ydd o Orffennaf. Y tîm buddugol eleni oedd Ystwyth gyda Rheidol yn ail ac Eleri yn drydydd, Llongyfarchiadau i'r canlynol am ennill y nifer fwyaf o bwyntiau i'w tai; Catrin Manley- Merched Blwyddyn 3 a 4; Corben Pemberton-Bechgyn 3 a 4. Megan Jackson- Merched Blwyddyn 5 a 6 a Siôn Manley- Bechgyn Blwyddyn 5 a 6.

## Gala Nofio

Enillwyr Gala Nofio'r ysgol eleni oedd Rheidol. Cyflwynwyd y tlws i'r ddau gapten, Alys Powell a Rhys Hughes. Megan Mason oedd y ferch â'r nifer fwyaf o bwyntiau a Lewis Drakeley a lwyddodd yng nhystadleuaeth y bechgyn.

## Ymweliadau

Os fuoch chi'n gwylio 'Springwatch' ar BBC 2 yn ddiweddar mi fyddwch yn ymwybodol mai o Warchodfa Natur Ynys-hir y darlledwyd y rhaglen. Mi fuodd Blwyddyn 2 yn ffodus ofnadwy cael mynd draw i Ynys-hir tra bo'r criw ffilmio'n cynhyrchu'r rhaglen. Yn ystod yr ymweliad cafodd y plant gyfle i bwll drochi ac astudio creaduriaid bach a phlanhigion arbennig.

## Cyngor Da

Galwodd Tomi Turner i'n gweld ar ddiwedd y tymor er mwyn cyflwyno gwybodaeth am Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol y Badau Achub (RNLI). Yn ystod y drafodaeth bu Tomi'n codi ymwybyddiaeth y plant o ddiogelwch ar y traeth ac yn y dŵr.

## Diwrnod Hwyl yr Urdd

Cynhaliwyd diwrnod Hwyl yr Urdd eleni ar y 12ed o Orffennaf. Mwynhaodd hanner cant o blant o flynyddoed 4, 5 a 6 amrywiaeth o weithgareddau yn cynnwys criced, athletau, pêl-rwyd, pêl-doj, golff, tennis, pêl-droed, rygbi, a dawnsio zumba.

## Clwb Cant

**Dyma ganlyniad fis Medi**
1af - £25 Alwen Fanning, Penrhyn-coch.
2il - £15 Efa Edwards, Llandre.
3ydd - £10 Lyndsey Pope, Tal-y-bont
Am fwy o wybodaeth a llwyth o luniau cliciwch ar www.rhydypennau.ceredigion.sch.uk


Mr a Mrs Tudor Gethin yn agor yr Arddwest yn swyddogol.


"Dewch i brynu!"- stondin yn yr arddwest.


Cyflwyniad Tomi Turner.


Dawnsio Zumba-Diwrnod Hwyl yr Urdd.


Ras agos yn y mabolgampau.

# TASG Y TINCER



Carwyn Davies


Gobeithio i chi fwynhau eich gwyliau haf. Mae'n siŵr bod rhai ohonoch wedi bod yn y Sioe yn Llanelwedd ac yn yr Eisteddfod yn Wrecsam, a rhai eraill ohonoch wedi bod tramor gyda'ch teuluoedd. Bydd nifer fawr ohonoch wedi newid dosbarth yn yr wythnosau diwethaf, a rhai wedi mynd i ysgolion newydd hyd yn oed — pob lwc i chi gyd!

Diolch i bawb fu'n lliwio'r llun o'r ddau yn chwarae pêl-droed. Roedd eich dewis o liwiau i'r crysau yn grêt. Dyma pwy anfonodd luniau: Nia Jones, Brynolwg, Bont-goch; Gethin a Carwyn Davies, Cynon Fawr, Llanfihangel-y-creuddyn; Elen Morgan, Llys Alaw, Bow Street; Oliver ac Eliza Williams, Sandymount, Y Borth; Ela Glain a Garan Ebenenzer Thomas, Llandaf, Caerdydd; Morgan Iwan a Gruffudd Iwan Ebenezer Ellis, Gwaelod-y-garth. Roedd eich lluniau'n hyfryd, ond Carwyn sy'n ennill y tro hwn. Hoffais y sanau oren oedd gan y bechgyn! Da iawn, bawb.

Un peth pwysig sy'n digwydd dros yr wythnosau nesaf yw Cwpan Rygbi'r Byd. Mae'n anodd credu bod 'na bedair blynedd ers y gêmau diwethaf. Ydech chi'n cofio pa dîm enillodd yn 2007 tybed? Ie, dyna chi, De Affrica. Mae 'na enw ar y cwpan bydd y tîm buddugol yn ei ennill, sef cwpan Webb Ellis. Dyn oedd Webb Ellis a oedd yn byw dros ganrif a hanner yn ôl. Un o Salford yng ngogledd Lloegr oedd Ellis yn wreiddiol, ond symudodd i dref Rugby pan oedd yn fachgen, ac yn ôl y sôn, fe waeth ddyfeisio'r gêm tra oedd yn byw yn y dref honno.

Yn Seland Newydd mae'r bencampwriaeth rygbi y tro hwn, ac mae sôn bod dros 70,000 o bobl o bob rhan o'r byd yn bwriadu mynd yno i wylio'r timau! Beth fydd hanes tîm Cymru, tybed? Y mis hwn, beth am liwio fflag Seland Newydd? Gallwch ddefnyddio'r lliwiau cywir, neu beth am ddyfeisio fflag newydd o liwiau llachar?

Anfonwch eich gwaith at y cyfeiriad arferol, Tasg y Tincer, 46 Bryncastell, Bow Street, Ceredigion SY24 5DE erbyn 1 Hydref. Ta ta tan toc!




Enw

Cyfeiriad

Ysgol

Oed | Rhif ffôn

MARK HUGHES
CEIROPODYDD A PHODIATRYDD COFRESTREDIG
Meddygfa Ystwyth
Gofal ewinedd arferol
Ewinedd yn tyfu i'r byw
Cyrn a chroen caled. Verrucae
Gofal traed i rai â chlefyd siwgr
Poenau yn y traed a'r coesau
GWASANAETH YMWELD Â'R CARTREF
01970 615938

TACSI EDDIE

7 DIWRNOD YR WYTHNOS
Ffôn 828 642
E D Evans, Gwawrfryn, Penrhyn-coch

GWASANAETH TEIPIO
GWAITH PRYDLON A CHYWIR
PRISIAU CYSTADLEUOL
* PROSESYDD GEIRIAU *
* PRINTYDD LLIW *

Iona Bailey
Pen-y-bryn
Swyddffynnon
Ystrad Meurig
Ffôn 01974 831580

inc
Amrywiaeth eang o lyfrau, cardiau,cerddoriaeth ac anrhegion Cymraeg.
Croesawir archebion gan unigolion ac ysgolion
13 Stryd y Bont
Aberystwyth
01970 626200

Gwasanaeth CYFIEITHU
Linda Griffiths

Maesmeurig
Cwmsymlog
Aberystwyth
Ceredigion SY23 3EZ
01970 828454
linda.griffiths01@btinternet.com

ISSN 0963-925X
9 770963 925009 >
Rhif 341 | MEDI 2011